Annwyl Syr / Fadam,

Atodir agenda a dogfennau eraill isod ar gyfer cyfarfod o'r **PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**.

Yr eiddoch yn gywir,

Gary Williams
**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd**

---

Dear Sir / Madam,

An agenda and other documents for a meeting of the **NORTH WALES POLICE AND CRIME PANEL** are attached below.

Yours faithfully,

Gary Williams
**Head of Legal and Democratic Services**

**AGENDA**

**1 PECYN AGENDA**

Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Dydd Llun, 11 Rhagfyr 2017 at 2.00 pm
Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

3. **Materion Brys**

   Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys.

4. **Cofnodion** (Tudalennau 1 - 17)

   Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

5. **Diweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol**

6. **Cyflwyniad ar y Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr, Gogledd Cymru**

7. **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd**

8. **Eitemau Sefydlog ar y Rhaglen**

   **a)** Cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd

   *(Cyflwynwyd yn unol â'r weithdrefn ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd)*

   **b)** Rhestr o benderfyniadau a wnaed gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Tudalennau 18 - 20)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**9. Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

**a)** Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 21 - 38)

**b)** Diweddariad ar Gyllideb 2017/18 (ar 31 Hydref 2017) (Tudalennau 39 - 42)

**c)** Cymharu Cyllideb Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (Tudalennau 43 - 47)

**10. Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal**

**a)** Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – Adroddiad Cyllideb 1 Ebrill 2017 i 30 Medi 2017 (Tudalennau 48 - 51)

**b)** Crynodeb o'r cwynion a dderbyniwyd (Tudalennau 52 - 55)

**c)** Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 56 - 57)

**11. Adborth gan Aelodau a aeth i'r Gynhadledd Genedlaethol**

**12. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Dydd Llun, 22 Ionawr 2018 @ 2.00pm
Dydd Mawrth, 30 Ionawr 2018 @ 2.00 pm - cynhelir y cyfarfod os caiff y praesept ei wahardd gan Banel yr Heddlu a Throsedd

Aelodau'r Panel:

| | |
|---|---|
| Cyng Chris Bithell | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Dana Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Alan Hunter | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Hugh Irving | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Eric Jones | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Neville Phillips OBE Y.H. | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Peter Read | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Dylan Rees | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Nigel Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

| | |
|---|---|
| Pat Astbury (Is-Gadeirydd) | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Matthew Forbes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| William John Williams | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

Sylwer: mae'n bosibl y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd - ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfarfod cyfan neu ran ohono'n cael ei ffilmio. Gallai'r lluniau a'r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Yn gyffredinol, nid yw'r mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r mannau eistedd cyhoeddus, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a'r posibilrwydd y bydd y lluniau a'r recordiadau sain hynny'n cael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a / neu hyfforddiant.

**PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Dydd Llun, 18 Medi 2017, am 2.00 pm
Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Y Cynghorydd Julie Fallon (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr: Chris Bithell, Chris Bithell, Dana Davies, Eric Jones, Neville Phillips, Peter Read, Dylan Rees, a Nigel Williams |
| Aelod Lleyg/ Aelod Cyfetholedig | Pat Astbury (Is-Gadeirydd) a John Williams |
| Swyddogion: | Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), Richard Jarvis (Swyddog Arweiniol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol) a Glenys Williams (Cyfieithydd) |
| Hefyd yn bresennol: | Ann Griffith (Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid– Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Arfon Jones (Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Meinir Jones (Swyddog Gweithredol – Swyddog Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Prif Arolygydd Paul Jones (Heddlu Gogledd Cymru), Susan McTaggart MBE (Prif Weithredwr Dros Dro– Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) a Rhian Rees Roberts (Swyddog Polisi - Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Ditectif Brif Arolygydd Andy Williams (Heddlu Gogledd Cymru) |

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Matthew Forbes (Aelod Annibynnol Cyfetholedig), y Cynghorydd Alan Hunter (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a'r Cynghorydd Hugh Irving (Cyngor Sir Ddinbych).

2. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag Eitem 8 (c) ar yr Rhaglen – Diweddariad ar Gyllideb 2017/18, gan fod ei gŵr yn Swyddog Heddlu ac y byddai trafodaeth ar y cyhoeddiad diweddar i ddileu'r cap cyflog ar dâl Swyddogion, gadawodd y Cynghorydd Fallon y cyfarfod tra roedd yr eitem yn cael ei thrafod.

Datganodd y Cynghorydd Chris Bithell (Cyngor Sir y Fflint) gysylltiad personol gan ei fod yn ymddiriedolwr ar gyfer Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig Glannau Dyfrdwy, sy'n elwa o gyllid gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

3. **MATERION BRYS**

Dim.

4. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD**

Dim.

5. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (y panel) a gynhaliwyd ar 10 Awst 2017 i'w cymeradwyo.

Rhoddodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) eglurhad am y canlynol:

Cofnod 83 – Rhestr o benderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd: Yn y cyfarfod diwethaf, holodd y Cadeirydd pe bai'r cyllid yn cael ei ddyrannu yn lleol i Wrecsam, cynghorydd y Comisiynydd fod y cyllid yn cael ei ddyrannu ar sail angen.

Eglurwyd hefyd fod y rhestr o benderfyniadau a ddarparwyd yn y cyfarfod diwethaf, yn restr llawn o'r penderfyniadau a wnaethpwyd gan y Comisiynydd cyn y cyfarfod diwethaf.

Cofnod 83 – Cyflwyniad ar y Strategaeth Atal: Ategodd yr Is Gadeirydd ddiolch y Comisiynydd i'r Uwcharolygydd Jane Banham am y cyflwyniad diddorol.

Cofnod 87: Diweddariad Rheolaidd gan Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru: Dylai bygythiad gan gyffuriau MPS ddarllen cyffuriau NPS. Gofynnodd y Comisiynydd hefyd i dad-reoleiddio gael ei newid i ddad-droseddoli cyffuriau ar dudalen 12 y rhaglen. Byddai diweddariad ar y cynllun peilot ar gyfer Triniaeth a Gynorthwyir gan Heroin yn cael ei gyflwyno ar adeg addas, gan fod Pwyllgor Cynghori Llywodraeth Cymru yn edrych i'r mater hwn ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD-**

> **Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 10 Awst 2017 fel cofnod cywir, yn amodol ar y diwygiadau i Gofnod 87 fel y nodir uchod.**

6. **DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD BLAENOROL (AR LAFAR)**

Rhoddodd y Comisiynydd eglurhad am y canlynol:

Cofnod 82 - Diweddariad ar Gamau Gweithredu o'r cyfarfod blaenorol: Byddai Cadeiryddion Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn fodlon mynychu Pwyllgorau Craffu Trosedd ac Anrhefn, ond byddai'r dyletswydd ar Gynghorau unigol i wahodd y Cadeirydd.

O safbwynt Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn mynychu cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned, roedd disgwyliad y byddent yn mynychu, fodd bynnag doedd hynny ddim yn digwydd. Anogwyd Aelodau i gysylltu â'u Arolygwyr Ardal perthnasol.

Cofnod 87: Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru: Cynghorodd y Comisiynydd na fyddai'n gallu darparu'r data o safbwynt y tri chategori Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a phroffiliau oedran, oherwydd faint o adnoddau oedd angen i gasglu'r data.

Yn y cyfarfod diwethaf, mynegwyd pryder fod cynnydd amlwg wedi bod yn y nifer o ddigwyddiadau cam-drin domestig, tra bo'r niferoedd o arestiadau wedi gostwng ychydig. Felly, roedd y Ditectif Brif Arolygydd (DCI) Andy Williams, sef arweinydd strategol cam-drin domestig ar draws Gogledd Cymru, yn bresennol er mwyn rhoi mwy o wybodaeth i'r Panel.

Dywedodd DCI Williams fod newidiadau yn y ffordd roedd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn cofnodi ac archwilio trosedd yn golygu gwelliant o ran uniondeb data am drosedd, yn arbennig o safbwynt safonau cofnodi troseddau, oedd heb os wedi cyfrannu at y gostyngiad canfyddedig yn y gyfradd arestio. Awgrymwyd fod cynnydd wedi bod yn y defnydd o bresenoldeb gwirfoddol, ond ymddengys nad dyna'r achos gan fod lefelau presenoldeb gwirfoddol yn dal yn weddol isel.

O safbwynt y cynnydd amlwg yn y nifer o ddigwyddiadau o gam-drin domestig, rhoddwyd gwybod i'r Panel hefyd fod esiamplau o fwy nag un drosedd yn cael ei chreu o un digwyddiad cam-drin domestig, yn unol â'r safonau cofnodi; felly byddai pob un o'r troseddau hyn yn cael eu categoreiddio fel cam-drin domestig wrth gau'r achos, ond dim ond un canlyniad fyddai'n dangos datrysiad.

Mae'n bosib hefyd fod y cynnydd o ganlyniad i'r ffaith fod pobl bellach yn fwy hyderus i roi gwybod am drosedd, ac y dylid gweld hyn fel cam cadarnhaol ymlaen.

Dywedodd DCI Williams wrth y Panel fod y dadansoddiad yn rhoi sicrwydd iddo fod Swyddogion Heddlu yn gwneud eu gwaith a fod y gostyngiad mewn cyfraddau arestio ddim yn golygu nad yw Swyddogion yn arestio pan ddylent fod yn gwneud hynny.

Diolchodd Aelodau i DCI Williams am y wybodaeth a thrafodwyd y canlynol:

- Roedd cynnydd mewn troseddu treisgar, heb anaf, yn unol â phatrymau cenedlaethol:
  - Gallai hyn gynnwys digwyddiadau o ymddygiad cymhellol a rheolaethol, emosiynol, aflonyddu ac ymosodiadau nad ydynt yn achosi unrhyw anaf.
- Y pwerau oedd gan yr Heddlu i gyhuddo, hyd yn oed os oedd y dioddefwyr yn gollwng y cyhuddiad:
  - Rhoddwyd gwybod i'r Panel fod hyn yn dibynnu ar Wasanaeth Erlyn y Goron a'r dystiolaeth oedd ar gael.

**PENDERFYNWYD-**
**Nodi'r wybodaeth.**

7. **CYFLWYNIAD GAN Y PRIF AROLYGYDD PAUL JONES – COFNODI TROSEDDAU**

Rhoddodd y Prif Arolygydd gyflwyniad i'r Panel, oedd yn amlinellu'r newidiadau mewn dulliau cofnodi troseddau ac ychydig o gyd-destun wrth adolygu canlyniadau yn dilyn archwiliadau gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi.

Cychwynnodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi gyfres o archwiliadau yn 2014 ac eto yn 2016 o ran uniondeb data trosedd, er mwyn sicrhau fod trosedd yn cael ei gofnodi'n unol â gweithdrefnau adrodd am droseddau.

Roedd y cyflwyniad yn sôn am y canlynol:

- Dosbarthiad ystadegol:
  - Pan fydd rhywun yn adrodd am drosedd, mae cofnod yn cael ei chreu yn y Bas Data Cofnodi Trosedd, yna bydd Asesydd Trosedd yn penderfynu ar ddosbarthiad ystadegau (math o drosedd) ac yna caiff ei chofnodi fel trosedd.
  - Yn flaenorol, 72 awr oedd gan yr Heddlu i gofnodi trosedd, er mwyn i Swyddogion gael amser i ymchwilio i'r digwyddiad, oherwydd newidiadau mewn arferion cofnodi, rhaid i'r Heddlu bellach gofnodi trosedd mewn 24 awr.
  - Unwaith roedd y dosbarthiad ystadegol wedi ei benderfynu a'r drosedd wedi ei chofnodi, ni ellir canslo hyn, os nad oedd gwybodaeth ychwanegol profadwy (fel Teledu Cylch Cyfyng); nid oedd modd iddynt ganslo trosedd ar bwysedd tebygolrwydd neu os oedd rhywun wedi newid eu meddwl. Felly, byddai achosion o droseddau wedi eu cofnodi, ond heb ganlyniadau (datrysiadau).
- Troseddau a Chanlyniadau:
  - Cofnodir trosedd pan adroddir amdani.
  - Esiamplau o fwy nag un drosedd yn cael ei chreu o'r un digwyddiad, ond gyda dim ond un drosedd yn cael datrysiad positif, ni fyddai'r troseddau eraill yn derbyn datrysiad positif ac felly byddai'n ymddangos fel bod cynnydd mewn troseddau.
  - Rhoddwyd canlyniad i bob trosedd.
  - Roedd 21 o ganlyniadau: Canlyniadau 1 – 8 yn cael eu gweld fel rhai positif (hen ddatrysiadau) a chanlyniadau 9 – 21 yn cael eu gweld fel canlyniadau negyddol.
- Newid diwylliant:
  - Mae Heddlu Gogledd Cymru am ganolbwyntio ar y canlyniadau o fewn Heddlu Gogledd Cymru a'r Cynllun Troseddau yn hytrach na'r ystadegau.
  - Gwella hyder y cyhoedd yn yr heddlu.
  - Darparu gwasanaeth safonol

- Canolbwyntio ar y dioddefwr a darparu'r cymorth angenrheidiol i'r rhai agored i niwed.
- Cyfiawnder gweithdrefnol.
- Gweithredu THRIVE a pholisi ymateb wedi ei raddio: Bygythiad (*Threat*), Niwed (*Harm*), Risg (*Risk*), Pa mor agored i niwed (*Vulnerability*) ac Ymgysylltu (*Engagement*).

- Uniondeb Data Trosedd
    - Cynhaliodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi archwiliadau o Heddlu Gogledd Cymru yn 2014 a 2016.
    - 2014 – cofnodwyd 95% o droseddau
    - 2016 – cofnodwyd 90% o droseddau
    - Nododd y Prif Arolygydd Jones fod pob trosedd yr adroddir amdani yn cael ei chofnodi, fodd bynnag mae rhai troseddau yn cael eu categoreiddio fel rhai na ellir eu cofnodi.
    - Mae rheolau'n ymwneud â chofnodi yn oddrychol a phan heriodd Heddlu Gogledd Cymru ganlyniadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi, newidiwyd 50% o'r cofnodion.
- Graddio archwiliad Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi fesul ardal Heddlu.

Diolchodd y Panel i'r Prif Arolygydd am y cyflwyniad ac aethant ymlaen i drafod y canlynol:

- Canlyniadau a datrysiadau.
- Uniondeb data a sut i graffu ar berfformiad effeithiol.
    - Er mwyn craffu ar berfformiad effeithiol o safbwynt y Panel neu'r Cyngor, awgrymwyd y gallai Swyddogion ganolbwyntio ar adrodd ar amrywiant mewn data er mwyn adnabod patrymau.
    - Mewn ymateb, ategodd y Comisiynydd yr angen am newid diwylliant ac fod angen canolbwyntio ar ddiogelu dioddefwyr trosedd, yn hytrach na'r nifer o droseddau. Dim ond ffigyrau gwaelodlin fyddai'r Prif Swyddogion yn adrodd arnynt a chyfeiriad teithio i'r Comisiynydd; roedd Arweinydd Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi yn hapus gyda'r newid diwylliant a chanolbwyntio ar ddiogelu.
    - Roedd angen addysgu'r cyhoedd, gan eu bod yn edrych ar ystadegau fel tystiolaeth o ba mor dda oedd Heddlu Gogledd Cymru yn perfformio,
    - Dywedodd y Prif Arolygydd Jones ei bod yn bwysig monitro'r arwyddion yn ardal yr Heddlu ei hun ac na ddylid cymharu gydag ardaloedd eraill; dylid canolbwyntio ar beth mae'r arwyddion yn eu golygu i Ogledd Cymru.
- Newidiadau yn y ffyrdd mae troseddau bwrgleriaeth yn cael eu cofnodi.

Rhoddwyd gwybod i'r Panel hefyd fod Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi wedi cadarnhau fod arferion cofnodi troseddau Heddlu Gogledd Cymru wedi gwella a fod prosesau wedi eu gosod er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion o fewn yr adroddiad arolygu.



**PENDERFYNWYD-**

**Nodi'r cyflwyniad.**

8. **RHESTR O BENDERFYNIADAU A WNAED GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynwyd rhestr o benderfyniadau a wnaed gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd rhwng 21 Ebrill 2017 a 23 Awst 2017 i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Awgrymodd y Cynghorydd Dana Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) y byddai'n ddefnyddiol pe gellid cynnwys y dyddiad gweithredu o fewn yr adroddiad. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid fod penderfyniadau yn cael eu gweithredu ar eu hunion, os na nodir yn wahanol.

Mewn perthynas â Phenderfyniad DM.2017.23 - eglurodd y Prif Swyddog Cyllid mai £78,429.50 oedd y cyllid a ddarparwyd i'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, yn hytrach na £784,295 fel y nodir yn yr adroddiad.

Rhoddodd y Swyddog Gweithredol (Meinir Jones) wybod i Aelodau y gellid darparu gwybodaeth bellach o safbwynt dosbarthu grantiau, pe dymunir.

**PENDERFYNWYD-**

**Nodi'r rhestr o benderfyniadau a wnaed gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd rhwng 21 Ebrill 2017 a 23 Awst 2017.**

9. **CWESTIYNAU I GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

Yn unol â'r Protocol ar gyfer cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd roedd aelod o'r cyhoedd (Mr. R. Hibbs) wedi cyflwyno nifer o gwestiynau i'r Comisiynydd, ac mae'r Comisiynydd wedi ymateb fel a ganlyn:

*Cwestiwn 1*

*Heb os Cynllun Heddlu a Throsedd 2017 yw'r cynllun strwythuredig gorau gyflwynwyd ar gyfer Gogledd Cymru ers 2012, ond a yw'r PCC yn derbyn nad oes ganddo fandad go iawn i weithredu unrhyw rai o'r polisïau cyffuriau a nodir ar t16? Nid yw unrhyw un o'r rhain yn ymddangos yn ei anerchiad etholiadol swyddogol yn 2016, na hyd yn oed fel blaenoriaeth strategol yn ei Gynllun ei hun, y gellir craffu ei ar ei swyddogaeth fel PCC yn agored, felly a yw'n disgwyl i asiantaethau eraill yng Ngogledd Cymru dalu'r bil am ei bolisïau tra bydd ef a'i ddirprwy yn gweiddi cefnogaeth o'r esgyll?*



*Ateb 1:*

*I ddechrau, Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd sy'n gyfrifol am blismona yn ei gyfanrwydd, a'u nod yw lleihau trosedd a darparu gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon o fewn eu maes. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ar draws ystod o asiantau, yn lleol ac yn genedlaethol, er mwyn sicrhau bod dull unedig i atal a lleihau trosedd. Bydd yr holl ymyriadau yr wy'n eu cynnig yn helpu gyda hyn. Mewn gwirionedd, o ystyried bod y ffordd rydym yn rheoli cyffuriau anghyfreithlon wrth wraidd delio â chymaint o'r trosedd rydym yn ei wynebu, mae'n ddyletswydd ar holl Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd i ddeall y mater, a bod yn fodlon cael eu harwain gan y dystiolaeth. Mae dysgu o'r hyn sy'n gweithio rywle arall, datblygu'r dulliau mwyaf effeithiol bosibl, diogelu'r ifanc a'r diamddiffyn a'r cymunedau rydym yn byw ynddynt, wrth wraidd yr hyn yr wy'n ceisio ei wneud.*

*O ran pwy sy'n talu'r biliau, mae ymchwil helaeth yn dangos bod yr holl fesurau rwy'n eu cefnogi yn gost effeithiol dros ben – felly byddai'n arbed arian i bobl Gogledd Cymru. Er enghraifft, o ran clinigau sy'n rhoi presgripsiwn am heroin, ac ystafelloedd cymryd cyffuriau, mae GIG Glasgow yn bwriadu agor y ddau cyn hir, ac yn ddiweddar cynhaliwyd achos busnes a ddaeth i'r casgliad canlynol: "Byddai ein cynigion [ar gyfer clinig sy'n rhoi presgripsiwn am heroin ac ystafell cymryd cyffuriau]...yn helpu i fynd i'r afael ag ystod eang o broblemau, gan leddfu pwysau sylweddol ar wasanaethau eraill yn y system. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir y posibilrwydd i'r cynigion hyn greu arbedion hirdymor, ac felly mae economeg y mater hwn hefyd yn gymhellol."*

*Yng Nglasgow, rwy'n deall eu bod yn bwriadu gwerthuso costau a manteision eu cynlluniau i weld pa asiantau sy'n arbed arian a faint. Gofynnir i bob un wedyn gyfrannu rhan o'r arbedion hynny yn ôl cyfran, er mwyn sicrhau adnoddau hirdymor ar gyfer y mesurau y maen nhw am eu rhoi ar waith. Gydag arbedion cyffredinol mawr i'w cael, byddai pob un yn elwa'n ariannol, ac ar yr un pryd byddai iechyd yn gwella a throsedd yn lleihau.*

*Yn debyg, nid yn unig y mae gwerthusiadau diweddar o raglenni i droi pobl a gaiff eu dal am dramgwyddau bach yn ymwneud â chyffuriau oddi wrth erlyniad wedi profi eu bod yn lleihau lefelau atgwympo, ond hefyd i ryddhau adnoddau'r heddlu ar gyfer blaenoriaethau eraill. Byddwn yn pwyntio tuag at Operation Turning Point yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, Checkpoint yn Durham a Rhaglen Addysg Cyffuriau Bryste.*

<u>Cwestiwn 2:</u>

*A yw'r PCC yn sylweddoli bod datganiadau fel "bod y rhyfel ar gyffuriau wedi'i cholli amser maith yn ôl" yn anfon neges anghywir i unigolion sy'n brwydro â chyffuriau, a'u teuluoedd, yn tanseilio morâl swyddogion yr heddlu sy'n cynnal y gyfraith ac yn bygwth gyrru lletem rhwng ei swyddfa a'r nifer o asiantaethau statudol, cyrff gwirfoddol a dinasyddion sydd wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r niwed a achosir gan or-ddefnyddio cyffuriau yng Ngogledd Cymru?*



*<u>Ateb 2 :</u>*

*Byddwn i'n camarwain y cyhoedd pe bawn i'n dweud bod y Rhyfel ar Gyffuriau'n trechu. Daeth Uned Strategaeth Prif Weinidog y DU i'r casgliad y byddai'n rhaid i ni atafaelu 60% o gyffuriau i ddod â busnes delwyr cyffuriau i ben, gan fod elwau mor uchel. Er, mae ymchwilwyr yn yr Alban yn awgrymu mai dim ond 1-3% o heroin sy'n dod i'r wlad yr ydym ni'n ei atafaelu – prin yn cyrraedd cost gwneud busnes ac yn amlwg yn amhosibl ei godi i fod yn agos i'r lefel sydd ei angen i 'ennill' y rhyfel ar gyffuriau. Daeth hyd yn oed gwerthusiad Llywodraeth y DU ei hun o'i strategaeth 2010-16 i'r canlyniad nad oedd y defnydd cyffredinol o gyffuriau wedi lleihau, mae marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau ar y lefelau uchaf erioed, mae marchnadoedd cyffuriau anghyfreithlon mor gryf fel dim ond effaith leol a byrdymor y mae systemau gorfodi yn eu cael ar y gorau, nid yw'n effeithio ar brisiau'r stryd, ac mewn gwirionedd yn achosi trosedd sy'n gysylltiedig â'r farchnad gyffuriau. Caiff gwefannau tywyll eu ffurfio mor gyflym â rhai sy'n cau, mae rhai cyffuriau bron ar lefelau purdeb heb eu tebyg, ac mae'r farchnad a grëwyd gan y dull cyfredol mor broffidiol ar gyfer trosedd trefnedig, mae'n ad-dalu costau smyglo yn rhwydd. Dywed hefyd nad oes llawer o dystiolaeth bod gorfodi yn gweithredu fel rhwystr i ddefnyddio cyffuriau, na bod systemau stopio a chwilio yn cyfyngu ar gyflenwad cyffuriau, ac mae cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn niweidio pobl ifanc a diamddiffyn, yn ogystal â theuluoedd. Mae hyn oll yn unol ag Adroddiad Cymaryddion Rhyngwladol blaenorol y Swyddfa Gartref, a edrychodd ar wledydd o bob cwr o'r byd cyn dod i gasgliad nad oedd unrhyw gyswllt rhwng llymder gorfodaeth a lefelau defnydd.*

*https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/628100/Drug_Strategy_Evaluation.PDF*

*https://www.gov.uk/government/publications/drugs-international-comparators*

*Mae gen i ddyletswydd i fod yn onest gyda phobl Gogledd Cymru, a phan nad yw polisïau'n gweithio, fydda i ddim yn peidio â dweud hynny, gan edrych i mewn i rai sydd yn gweithio. Ond o ystyried bod pleidlais yn dangos bod 75% o'r cyhoedd yn cytuno gyda mi ein bod wedi colli'r rhyfel ar gyffuriau, byddai honni fel arall hefyd yn peryglu ffydd y cyhoedd yn yr heddlu, a swydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, gan fwydo mwy o ddiffyg ffydd gan y cyhoedd mewn gwleidyddwyr sy'n niweidiol i ddemocratiaeth.*

*http://www.mirror.co.uk/news/uk-news/weve-lost-the-war-on-drugs-exclusive-1559854*

*Yn wir, yn bell o yrru fy swydd i ac asiantau eraill ar wahân, mae cytundeb eang bellach ymysg sefydliadau triniaeth mawr, arbenigwyr iechyd, cyrff fel Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd, Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau, Sefydliad Iechyd Y Byd a llawer mwy, bod y Rhyfel ar Gyffuriau yn fethiant gwrthgynhyrchiol, a'i bod yn amser trin cyffuriau anghyfreithlon fel mater iechyd.*
*Ar ôl cwrdd ag aelodau'r prosiect Anyone's Child, rwy'n gwybod bod y rhai sy'n dioddef gorddosau cyffuriau hefyd yn dod i'r casgliad bod y dull presennol yn peryglu yn hytrach na'n hamddiffyn ni.*

*Mae Cwestiwn 3, 4 a 5 i gyd yn ymwneud â'r ymyriadau polisi cyffuriau sefydledig yr wyf yn eu cefnogi, ac a gafodd eu cyflwyno mewn ystod o wledydd gan gynnwys Y Swistir, Portiwgal a Chanada, gyda'r nod penodol o leihau marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.*

*Byddaf yn ymateb i rai pwyntiau penodol, ond yn hytrach na dewis ystadegau neu adroddiadau unigol, neu wastraffu amser yn creu rhywbeth sydd eisoes yn bodoli, nodaf fod yr ymyriadau yr wy'n eu cefnogi ar gyffuriau hefyd yn cael eu cefnogi'n uniongyrchol gan awgrymiadau Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau Llywodraeth Y DU a'r Ganolfan Monitro Ewropeaidd ar Gyffuriau a Chaethiwed Cyffuriau y mae Mr Hibbs yn cyfeirio atynt yng nghwestiwn 4. Dyma'r cyrff statudol annibynnol safonol aur sy'n gweithio ar lefel y DU ac Ewropeaidd.*

<u>*Cwestiwn 3:*</u>

*Mae'r PCC yn enwi Portiwgal fel enghraifft flaenllaw o arweinyddiaeth ac arloesed ym maes polisi cyffuriau, felly a all roi gwybod i'r Panel faint o Ganolfannau Lleihau Niwed Uwch o'r math y mae'n ei gynnig ar gyfer Wrecsam sy'n gweithredu ym Mhortiwgal heddiw a sut y maent yn cyfrannu at yr "ymagwedd system gyfan" sy'n gweithredu yno? Neu a yw'n cytuno â mi mai'r unig agweddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar bolisi cyffuriau ym Mhortiwgal sy'n werth mynd ar eu trywydd yw lleihau poblogaeth carchardai yn y Deyrnas Unedig, a lleihau'r galw am gyffuriau trwy fynnu ymyriadau seicogymdeithasol yn seiliedig ar dystiolaeth i drin ymddygiadau problemus a chaethiwus?*

<u>*Ateb 3:*</u>

*Mae Canolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop yn disgrifio dull Portiwgal fel "polisi iechyd y cyhoedd a sefydlwyd ar werthoedd fel dyniaethiaeth, pragmatiaeth a chyfranogiad." Er mai dim ond tua 40 o farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau sydd gan Bortiwgal bob blwyddyn - tua 1/10 o gyfradd y DU am bob miliwn o'r boblogaeth, a llawer llai na'r cyfnod cyn cyflwyno eu hymagwedd dad-droseddu yn seiliedig ar iechyd yn 2001, nid ydynt yn hunanfodlon.*

*Maen nhw'n wynebu llawer o'r un pwysau â ni yng Nghymru, gan gynnwys toriadau i gyllidebau gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, a phroblemau gyda thlodi, yn ogystal â phoblogaeth hŷn sy'n defnyddio cyffuriau, bu iddynt gomisiynu eu Hystafell Cymryd Cyffuriau gyntaf ym mis Mai, a bydd yn agor yn Lisbon yn ddiweddarach y flwyddyn hon. Mae hyn yn unol â'r Alban, Iwerddon a Ffrainc, y mae ganddyn nhw ystafelloedd cymryd cyffuriau dan oruchwyliaeth neu ar fin agor rhai am y tro cyntaf.*

*O ran ymagwedd Portiwgal i gyffuriau sy'n seiliedig ar ddad-droseddu ac iechyd, mae'r Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau (ynghyd â Chymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd a theulu cyfan cyrff y Cenhedloedd Unedig) wedi galw am y rhai sy'n meddu ar gyffuriau gael eu*

*hatgyfeirio at fesurau iechyd, nid dim ond y system cyfiawnder troseddol. Ailadroddwyd sefyllfa yn fwyaf diweddar gan Adolygiad Lammy i'r llywodraeth, a alwodd i'r mathau hyn o gynlluniau dargyfeirio gael eu cyflwyno ledled y wlad, fel y nodais mewn ymateb i gwestiwn 1.*

*Cwestiwn 4 :*

*A all y PCC hysbysu'r Panel faint o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau sy'n cael eu cofnodi bob blwyddyn o fewn awdurdodaeth gymdeithasol geidwadol a chyfrinachol y Swistir; p'un a yw'r wlad hon yn gweld tuedd tuag at i lawr ar hyn o bryd; a sut mae'n cael ei ffigurau o gofio nad ydynt wedi eu cyflwyno i Ganolfan Monitro Ewropeaidd EMCDDA, yn ôl pob tebyg oherwydd y nifer fawr o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau sy'n digwydd mewn clinigau yn Zürich?*

*Ateb 4 :*

*Nid yw'r Swistir yn wlad yr UE felly nid oes rhaid iddi gyflwyno data i Ganolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop. Fodd bynnag, yn ôl Gwyliadwriaeth Caethiwed y Swistir, system wyliadwriaeth epidemiolegol a orfodir gan Swyddfa Ffederal Iechyd y Cyhoedd (FOPH), mae marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau wedi gostwng o 376 yn 1995 pan ddechreuodd clinigau rhagnodi heroin ac ystafelloedd defnyddio cyffuriau yn gyntaf, fel rhan o'u hymagwedd at iechyd, i 134 o farwolaethau yn 2014, allan o boblogaeth o 8.4 miliwn. Y llynedd, bu 158 o farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau yng Nghymru, sydd â phoblogaeth o 3 miliwn - felly dros dair gwaith cyfradd marwolaeth y Swistir.*

*http://www.suchtmonitoring.ch/fr/3/7.html?opioides-mortalite*

*Gwnaethom ofyn i Jean-Felix Savary, GREA – grŵp ymbarél o weithwyr proffesiynol o'r Swistir sy'n gweithio ym maes caethiwed – am farwolaethau mewn clinigau heroin er mwyn cael yr ystadegau diweddaraf. Meddai ef (09/09/17); "Gallaf gadarnhau nad oes neb erioed wedi marw gyda gorddos heroin mewn unrhyw glinig HAT yn y Swistir, gan gynnwys yn Zurich. Caiff ei oruchwylio'n feddygol llym, felly does dim risg o ran hynny. Mae iechyd pobl hefyd yn gwella'n fawr ar raglenni o'r fath." Mewn gwirionedd, does neb erioed wedi marw o orddos cyffuriau mewn unrhyw glinig sy'n rhoi presgripsiwn heroin yn unrhyw le yn y byd, nac mewn ystafell cymryd cyffuriau dan oruchwyliaeth chwaith.*

*Cwestiwn 5:*

*Gan fod marwolaethau gormodol yn un o nifer o ddangosyddion allweddol llwyddiant unrhyw bolisi a adeiladwyd o amgylch chwistrellu dan oruchwyliaeth a / neu Triniaeth a Gynorthwyir gan Heroin, a yw'r PCC yn cytuno â'r meta-ddadansoddiad o 6 treial rhyngwladol o ragnodi heroin a gyhoeddwyd gan Gyfarwyddwr y Ganolfan Dibyniaeth Genedlaethol (Strang et al. 2015) sy'n dod i'r casgliad nad oes dim gostyngiad ystadegol arwyddocaol mewn marwolaeth o'i gymharu â'r dewisiadau amgen sydd ar gael (t = 0.38, Ffigwr 3)? Ac a fyddai, felly, yn tueddu i gytuno â'r gwasanaeth crwner C.B yn Vancouver mai'r profiad yn Colombia Brydeinig yw bod y rhai sy'n gaeth i gyffuriau yn dal i farw ar eu pen eu hunain yn eu cartrefi eu hunain neu dan do 90% o'r amser?*

*Ateb 5:*

*Cynhaliodd y Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau, mewn ymateb i lefelau troellog marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau y DU, ddadansoddiad manwl o dystiolaeth ar draws y byd gan edrych ar ystod eang o ymchwil i fesurau i leihau cyfraddau marwolaeth - nid dim ond ychydig o astudiaethau. Yn seiliedig ar hyn, gwnaethant ryddhau'r adroddiad 'Reducing Opioid-Related Deaths in the UK'. Mae'r adroddiad hwn wedi'i deilwra i'n sefyllfa ni, ac mae'n nodi'r canlynol yn ychwanegol i therapi amnewid opioid:*

*"Gellid datblygu opsiynau triniaeth camddefnyddio sylweddau ymhellach er mwyn lleihau'r risg o farwolaeth, gan gynnwys darpariaeth ehangach o **driniaeth â chymorth heroin** [clinigau sy'n rhoi heroin ar bresgripsiwn] ar gyfer y rhai lle nad yw ffurfiau eraill o OST yn effeithiol, **clinigau trin cyffuriau a oruchwylir yn feddygol**, triniaeth ar gyfer problemau alcohol, ac allgymorth grymusol i ymgysylltu defnyddwyr heroin nad ydynt yn cael triniaeth OST (yn enwedig y rhai sy'n ddigartref a/neu sydd â phroblemau iechyd meddwl)."*

*Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, derbyniodd Llywodraeth y DU fod y mesurau hyn yn werthfawr i leihau marwolaethau. Argymhellir Clinigau Rhoi Presgripsiwn Heroin yn Strategaeth Modern Gostwng Troseddu y Llywodraeth hefyd oherwydd eu cwmpas i reoli nifer fawr o drosedd meddiangar a delio ar y stryd. Mae Llywodraeth y DU yn dweud yn benodol y caiff Comisiynwyr Heddlu a Throsedd sydd am archwilio'r mesurau hyn eu hannog "i ymgysylltu ag awdurdodau lleol sy'n comisiynu triniaeth cyffuriau ac alcohol yn eu hardaloedd." (Ateb gan Brandon Lewis AS, yna Gweinidog y Swyddfa Gartref)*

*Mae Canolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop hefyd wedi cynnal adolygiadau ar wahân o ymchwil ar ystafelloedd cymryd cyffuriau a chlinigau rhoi presgripsiwn heroin o amgylch y byd, gan ddod i'r*

*casgliad bod y ddau yn ffyrdd cost effeithiol o gyfathrebu a chynnal cysylltiad gyda phoblogaethau targed ar y cyrion, gan arwain at welliannau o ran glendid a defnydd diogelach i gleientiaid, yn ogystal â buddion iechyd a threfn gyhoeddus ehangach.*

*http://www.emcdda.europa.eu/topics/pods/drug-consumption-rooms*

*http://www.emcdda.europa.eu/publications/insights/heroin-assisted-treatment*

*Byddwn yn falch o bwyntio at dystiolaeth bellach helaeth a chyngor arbenigol i gefnogi cynlluniau fy swydd, ac yn arbennig, darparu cysylltiadau yn y Swistir, Portiwgal a Chanada y gall siarad yn uniongyrchol gyda hwy er mwyn sicrhau sicrwydd am werth y gwahanol fentrau dan sylw.*

Croesawodd y Comisiynydd y cwestiynau a’r cyfle i ymateb yn swyddogol i Mr. Hibbs,

Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro, fod cost wedi bod i’r OPCC oherwydd natur y cwestiynau.

**PENDERFYNWYD-**

**Nodi'r cwestiynau a’r atebion.**

10. **DIWEDDARIAD CYFNODOL GAN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Rhoddodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddiweddariad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2017 tan ganol Awst 2017.

Mae’r adroddiad yn darparu manylion perfformiad yn erbyn chwarter cyntaf Cynllun Heddlu a Throsedd 2017 - 2021.

Darparodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru hefyd fanylion am ei weithgareddau, ers cyhoeddi'r adroddiad, oedd yn cynnwys:

- Cyfarfod gyda Mr.
- Neil Ayling a Mrs. Jenny Williams, Cadeiryddion Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion Rhanbarthol, er mwyn trafod eu hadroddiadau blynyddol. Cyfarfod gyda’r Rhingyll Sam Roberts, Bwrdd Ffederasiwn yr Heddlu er mwyn trafod yr ardoll brentisiaethau.
- Ymwelodd â 3 sioe amaethyddol – Sioe Môn, Sir y Fflint a Sir Ddinbych, a Meirionnydd.
- Ymgysylltu ac ymgynghori gydag amrywiaeth o unigolion, undebau a chymdeithasau.
- Cyfarfod gyda Steven Carr (Llywodraeth Cymru) i drafod adolygiad y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.
- Cyfarfod gydag Ymddiriedolaeth St Giles i drafod y prosiect ‘County Lines'.

- Ymweld â Chanolfan Shotton, sy'n gwneud gwaith ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant.
- Mynychu Bwrdd Monitro Annibynnol Carchar y Berwyn.
- Cyfarfod gyda Mandy Burrows a Tony Jones, Cydlynwyr Amrywiaeth Llywodraeth Cymru, wrth baratoi ar gyfer Wythnos Amrywiaeth a Throsedd Casineb.
- Cyfarfod gyda Chymdeithas Gwarchod Cymdogaeth Gogledd Cymru
- Cadeirio cyfarfod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru.
- Mynychu hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern.
- Ymweld â Rheolwyr a Swyddogion Heddlu drwy Ogledd Cymru er mwyn eu hysbysu am y broses cynllunio cyllideb.

Diolchodd y Panel i'r Comisiynydd am ei ddiweddariad a thrafodwyd y canlynol:

- Timau Cymdogaethau mwy Diogel a chydnabyddiaeth o fewn yr adroddiad fod angen buddsoddiad pellach yn yr ardaloedd hynny.
    - Cynghorodd y Comisiynydd ei fod yn edrych ar fylchau mewn darpariaeth a fod modelau Timau Cymdogaethau mwy Diogel yn Sir y Fflint a Gorllewin Conwy, wedi eu rhannu rhwng plismona meddal a phroactif yn esiamplau o arfer da; roedd y Comisiynydd i fod i gwrdd y Prif Gwnstabl er mwyn trafod os gellir ehangu'r model hon drwy holl ardal yr Heddlu.
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned
    - Cydnabu'r Is Gomisiynydd nad oedd gan 30% o'r cyhoedd fynediad at Fand eang a byddai angen ystyried hynny wrth ymgynghori â'r cyhoedd.
- Gwelededd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu mewn ardaloedd gwledig:
    - Cadarnhaodd y Comisiynydd fod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael eu dyrannu i ardaloedd, gan gynnwys ardaloedd gwledig ac os nad oedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn weledol, ni ddylai hyn atal y cyhoedd rhag adrodd am droseddau yn y modd arferol.
    - Ategodd y Panel y dylai Cynghorau Tref a Chymuned gysylltu â'u Harolygwyr perthnasol er mwyn holi iddynt fynychu eu cyfarfodydd.
- Y rhagdybiaeth fod niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gostwng, yn enwedig yn Ynys Môn.
    - Cynghorodd y Comisiynydd y gallai'r gostyngiad mewn nifer o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fod oherwydd fod nifer o'r rheiny yn ymuno â'r Heddlu arferol.
    - Trafodwyd ffigyrau recriwtio yn y Bwrdd Gweithredol Strategol a gofynnodd y Prif Swyddog Cyllid pe gellid cylchredeg y ffigyrau hynny i'r Panel.
    - Cynghorodd y Comisiynydd hefyd fod proses craffu wedi ei rhoi yn ei lle er mwyn edrych ar brosesau AD a fetio.

Cynghorodd yr Is-Gadeirydd y Panel ei bod wedi mynychu Diwrnod Agored yr Heddlu ar dydd Sadwrn 16 Medi 2017, oedd yn ddigwyddiad gwych.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Nodi diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.**

**(b) Fod y Prif Swyddog Cyllid yn ymchwilio os gellir rhannu ffigyrau recriwtio gyda'r Panel Heddlu a Throsedd.**

11. **ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016 / 17, oedd yn rhoi gwybodaeth am y blaenoriaethau plismona a osodwyd gan ragflaenydd y Comisiynydd, Mr. Winston Roddick QC CB a blwyddyn gyntaf lawn y Comisiynydd yn y swydd.

Wrth graffu ar yr adroddiad, trafododd y Panel Heddlu a Throsedd y canlynol:

- Cael cyllid o enillion troseddau (Deddf Enillion Troseddau):
  - Cynghorodd y Comisiynydd mai Heddlu Gogledd Cymru sy'n perfformio orau yng Nghymru o ran ennill enillion troseddau.
  - Byddai ymchwiliadau hefyd yn cael eu gwneud i asedau troseddwr er mwyn adennill cymaint o'r enillion â phosib.
- Carchar EM Berwyn yn Wrecsam a'r gallu sydd gan Heddlu Gogledd Cymru i gael mynediad at arian pe byddai digwyddiad yn digwydd yn y carchar.
  - Dywedodd y Comisiynydd gan ei fod yn steil newydd o garchar, yn canolbwyntio ar ddulliau ail sefydlu newydd, dylai hyn ostwng y tebygolrwydd o ddigwyddiadau yn y carchar.
  - Roedd gan y Gwasanaeth Carchar Garfan Terfysg Carchar eu hunain, sy'n cael eu hyfforddi i drin ag unrhyw ddigwyddiadau.
  - Yn ddiweddar roedd yr Is Gomisiynydd wedi mynychu hyfforddiant Uned Ddiogelwch Cyhoeddus.
- Sefydlwyd Tîm Ymyrraeth Gynnar yn Sir y Fflint i weithio gyda'r rheiny sy'n cynhyrchu'r galw mwyaf o ran bygythiad, niwed a risg.
  - Dywedodd y Comisiynydd ei fod yn gobeithio y gallai'r fenter barhau, yn ddibynnol ar y sefyllfa ariannol y flwyddyn nesaf.
- Cymhwyster Peilot Drôn
  - Cynghorodd y Comisiynydd fod 10 Swyddog bellach yn gymwys ac y gellid defnyddio hyn yn lle hofrennydd mewn rhai achosion, ac felly byddai'n lleihau costau.
  - Nid oedd y drôn yn weithredol eto gan fod Heddlu Gogledd Cymru yn aros am drwydded.
- Brysbennu Stryd Iechyd Meddwl:
  - Dywedodd y Comisiynydd ei fod yn aros am adroddiad gwerthuso ar gyfer y prosiect hwn.
  - Gofynnodd y Cynghorydd Diana Davies os oedd y Comisiynydd yn ymweld â'r 'Triage' fod Aelodau Lleol yn cael eu gwahodd i fynychu.
- Recriwtio swyddogion o Dde Gwynedd.

- Uned Diogelwch Ar Y Ffyrdd y Swyddogion Heddlu Arbennig, aeth yn fyw fis Rhagfyr 2016:
  - Cyfeiriwyd at yr adroddiadau diweddar yn y wasg fod gostyngiad yn y nifer o brofion anadlu ar ochr y ffordd yn gysylltiedig â'r gostyngiad mewn Swyddogion Traffig.
  - Dywedodd y Comisiynydd y byddai Uned Diogelwch Ar Y Ffyrdd y Swyddogion Heddlu Arbennig yn gweithio ochr yn ochr â Heddlu'r Ffyrdd a gwirfoddolwyr Gwylio Cyflymder Cymunedol.
  - Nodwyd nad oedd Plismona'r Ffyrdd yn nodwedd o'r Cynllun, felly ni fyddai'r Comisiynydd yn adrodd ar berfformiad yr Uned hon.

Cymeradwyodd y Panel yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016/17.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2016/17.**

12. **DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB 2017/18 (AR 30 MEHEFIN 2017)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (y Panel) ar gyllideb plismona Gogledd Cymru fel yr oedd ar 30 Mehefin 2017.

Cynghorwyd y Panel y byddai'r cyhoeddiad diweddar i ddileu'r cap tâl ar gyflog Swyddog Heddlu yn golygu cynnydd o 1% mewn cyflog a bonws o 1%.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid wybod i Aelodau y byddai'r gost ychwanegol o oddeutu £351,000 yn 2017/18 yn cael ei gyllido o'r tanwariant o £1.4 miliwn. Fodd bynnag, yn y dyfodol ni wyddys sut bydd y costau yn cael eu rheoli a'u cyllido.

Cyfeiriwyd hefyd at y gyllideb ar gyfer gweithredu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a sut roedd yn cymharu gyda Swyddfeydd Comisiynwyr eraill. Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid fod Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn cyhoeddi ystadegau yn flynyddol, y gellid eu cyflwyno i'r Panel.

O safbwynt y gwariant ar y Rhaglen Gyfalaf hyd at 30 Mehefin 2017, cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid fod hyn yn cynnwys y cyfanswm gwariant am y blynyddoedd diwethaf.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Nodi'r adroddiad.**

**(b) Fod y Prif Swyddog Cyllid yn cyflwyno ystadegau gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth mewn cysylltiad â'r cyllidebau ar gyfer gweithredu Swyddfeydd Comisiynwyr Heddlu a Throsedd.**

*(Noder: Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) gysylltiad personol â'r eitem hon ac felly gadawodd y cyfarfod tra bu trafod ar yr eitem.)*

13. **ADRODDIAD PENNU CYLLIDEB A PRAESEPT 2018/19**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad, oedd yn cynghori Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru o'r broses a'r amserlen sydd gan y Comisiynydd i osod ei gyllideb a praesept ar gyfer 2018/19 a rôl y Panel yn y broses.

Roedd Atodiad 1 yr adroddiad yn rhoi canllawiau ar gyfer craffu ar y praesept ac yn dangos fod yr amserlen yng Ngogledd Cymru ychydig o flaen yr amserlen statudol, er mwyn galluogi Swyddog Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i ddarparu gwybodaeth i awdurdodau lleol yn amserol.

Byddai gwybodaeth bellach ar y gyllideb a'r broses braesept yn cael ei gyflwyno i'r Panel ar eu Diwrnod Datblygu ar 23 Hydref 2017.

**PENDERFYNWYD-**
**Nodi'r adroddiad.**

14. **AELODAU SY'N GEFNOGWYR**

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol adroddiad, yn holi i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ystyried penodi Memnaelodau Sy'n Gefnogwyr i gyd-fynd â'r blaenoriaethau o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd ac i oruchwylio'r broses gyllido a phraesept.

Cynghorydd y Swyddog Arweiniol hefyd am fân newidiadau i'r Protocol ar gyfer Aelodau Sy'n Gefnogwyr fel a ganlyn:

- Paragraff 6.1 yr Adroddiad – Nid oedd rôl Aelod Sy'n Gefnogwr yn un daladwy, a dim ond gwaith awdurdodedig fyddai'n cael ei dalu.
- Paragraff 2.3 o'r Protocol – Dywedodd y Swyddog Arweiniol y byddai rôl Aelod Sy'n Gefnogwr yn cael ei redeg fel peilot 12 mis, ac na fyddai swyddogion cyswllt o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cael eu penodi ar hyn o bryd wedi i'r swyddfa ailystyried.
- Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau at y Swyddog Arweiniol neu'r Prif Weithredwr Dros Dro neu'r Prif Swyddog Cyllid o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn y cyfamser.

Dywedodd y Prif Weithredwr dros dro wrth y Panel yr hoffai Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd pe bai'r mater yn cael ei ohirio tan ei fod yn fodlon gyda'r Protocol. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog Arweiniol fod ymgynghori wedi ei wneud yn flaenorol gyda Stephen Hughes (Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd).

Cytunodd y Panel y dylai Aelodau gael eu penodi i'r rolau yn ddibynnol ar y Swyddog Arweiniol a Phrif Weithredwr Dros Dro Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cytuno ac yn datblygu Protocol ar gyfer rôl y Aelod sy'n Gefnogwr.

Dywedodd y Prif Weithredwr dros dro y gallai'r Diwrnod Datblygu hysbysu trafodaeth bellach ynglŷn â'r protocol.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Fod rôl yr Aelod Sy'n Gefnogwr yn cael ei sefydlu a'i rhedeg fel peilot am 12 mis a bod Swyddog Arweiniol Panel yr Heddlu a Throsedd a Phrif Weithredwr Dros Dro Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn datblygu ac yn cytuno ar Brotocol addas ar gyfer rôl Aelod Sy'n Gefnogwr. Ni fydd y rôl yr Aelodau sy'n Gefnogwyr a'r cyfnod o 12 mis yn cychwyn tan bydd y Protocol wedi ei gytuno arno.**

**(b) Fod Aelodau canlynol Panel yr Heddlu a Throsedd yn cael eu penodi fel Aelodau sy'n Gefnogwyr:**

- **Cefnogwr Cam-Drin Domestig – y Cynghorydd Chris Bithel (Cyngor Sir Ddinbych)**
- **Cefnogwr Caethwasiaeth Fodern - Pat Astbury (Aelod Annibynnol Cyfetholedig)**
- **Cefnogwr Troseddau Cyfundrefnol – Jones Williams (Aelod Annibynnol Cyfetholedig)**
- **Cefnogwr Cam-Drin Rhywiol – Pat Astbury**
- **Cefnogwr Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel – y Cynghorydd Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)**
- **Cefnogwr Cyllid ac Adnoddau – y Cynghorydd Dana Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)**

15. **YSTYRIED RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru hyd at fis Mawrth 2018.

Cafodd y Panel eu hatgoffa fod Diwrnod Datblygu yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar 23 Hydref 2017.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.**

16. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 11 Rhagfyr 2017 am 2pm.

(Daeth y cyfarfod i ben am 4.15 pm)

| | |
|---|---|
| | **PANEL YR HEDDLU A THROSEDD**<br><br>**11 Rhagfyr 2017**<br><br>**COFNOD PENDERFYNIADAU**<br><br>**Adroddiad y Prif Weithredwr** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (“y Comisiynydd”) yn gyfrifol am wneud nifer o benderfyniadau drwy gydol y flwyddyn. Gall y rhain gynnwys penderfyniadau ynghylch materion fel y gyllideb a'r praesept, penodiadau, blaenoriaethau plismona a thrafodion cyfreithiol.

## 2. SUT Y GWNEIR PENDERFYNIADAU

2.1 Y Polisi Gwneud Penderfyniadau sy'n nodi’r broses y bydd Comisiynydd Gogledd Cymru yn cadw ato wrth wneud penderfyniadau. Mae’n darparu’r paramedrau, yr ymdriniaeth a’r egwyddorion ac yn amlinellu’r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a chyhoeddi’r penderfyniadau a wneir.

2.2 Bydd penderfyniadau’r Comisiynydd yn ymwneud yn bennaf â chyflawni ei swyddogaethau statudol; yn ogystal, mae ar y Comisiynydd ddyletswydd statudol i gofnodi a chyhoeddi penderfyniadau o fudd cyhoeddus arwyddocaol sy’n deillio o arfer y swyddogaethau statudol hynny, boed wedi’u gwneud gan y Comisiynydd yn breifat neu o ganlyniad i gyfarfod o natur gyhoeddus neu breifat.

2.3 Mae’r gofynion statudol yng Ngorchymyn (Gwybodaeth Benodedig) Cyrff Plismona Lleol Etholedig 2011/12 a 13 (“y Gorchmynion”) ar gyfer cofnodi a chyhoeddi gwybodaeth berthnasol i benderfyniadau a wneir, yn gofyn am elfennau penodol er mwyn sicrhau tryloywder ac i sicrhau unplygrwydd y rhai hynny sy'n gwneud y penderfyniadau. Bydd penderfyniadau a wneir yr ystyrir eu bod o ddiddordeb i’r cyhoedd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd ac yn cael eu cyflwyno er sylw’r Panel yn yr adroddiad hwn.

## 3. CRAFFU AR BENDERFYNIADAU’R COMISIYNYDD

3.1 Mae’r Panel Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am oruchwylio’r Comisiynydd a chraffu ar benderfyniadau a wneir ganddo.

3.2 Bwriad y Comisiynydd yw cyflwyno i’r panel grynodeb o'r holl benderfyniadau a wnaed ynghyd â chrynodeb o'r rheswm pam y gwnaed y penderfyniad. Bwriedir y bydd hyn o gymorth i'r Panel gyflawni ei ddyletswydd o graffu ar ei benderfyniadau.

## 4. ARGYMHELLION

4.1 Bod y Panel yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

## 5. COFNOD PENDERFYNIADAU

5.1 Mae'r tabl isod yn nodi'r penderfyniadau allweddol a wnaed o 22 Awst 2017 hyd 13 Tachwedd 2017.

| Dyddiad | Teitl a dolenni i'r penderfyniad llawn | Crynodeb |
|---|---|---|
| 20.09.17 | Specialist Advice from Transform | Gofynnwyd i Trawsnewid, melin drafod elusennol sy'n arbenigo mewn polisi cyffuriau i ddarparu atebion i gwestiynau a gyflwynwyd i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd drwy'r Panel Heddlu a Throsedd. Roedd cost derbyn y wybodaeth hon yn £100 |
| 16.10.17 | Women's Pathfinder Project £10K | Darparwyd cyllid tuag at ymchwil i sefydlu Prosiect Braenaru Cymru gyfan. Arweinydd y prosiect yw Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru. Mae'r cynllun Braenaru yn anelu i wella'r canlyniadau i ferched sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru. |
| 16.10.17 | Extension to a secondment | Darparu goruchwyliaeth ar gyfer swydd y prif weithredwr (statudol) dros gyfnod o salwch tymor hir. Mae'r estyniad wedi'i ymestyn i 31 Rhagfyr 2017 ac adolygir ymhellach cyn diwedd Tachwedd 2017. |
| 31.10.17 | Hate Awareness Grant | Darparodd Llywodraeth Cymru grant o £5,000 i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i'w ddefnyddio i gefnogi Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb. Mae'r hysbysiad penderfyniad hwn yn manylu sut y dosbarthodd y Comisiynydd y grant yng Ngogledd Cymru. |
| 31.10.17 | Recruitment of Joint Audit Committee Members | Bydd contractau holl aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn dod i ben ar 31 Mawrth 2018. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi penderfynu defnyddio gwasanaethau asiantaeth recriwtio, Gatenby Sanderson i recriwtio aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio o 1 Ebrill 2018. Bydd y ffioedd recriwtio yn £20,000 ynghyd â chostau hysbysebu. |

5.2 Mae gwybodaeth ychwanegol i'w chael ar wefan y Comisiynydd (**How we make decisions**).

**6. TRAFODION CYFREITHIOL**

6.1 Yn unol â’r "Gorchmynion", mae'r Comisiynydd yn cyhoeddi gwybodaeth am y Contractau, Trafodion Eiddo ac Atgyfeiriadau i'r Archebion Sefydlog y mae wedi eu cymeradwyo.

6.2 Rhoddir yr adroddiad hwn i'r Cydbwyllgor Archwilio er gwybodaeth ac i’w chraffu.

6.3 Gellir dod o hyd i'r adroddiad diweddaraf ar gyfer y cyfnod sy'n dod i ben ar 30 Medi 2017 trwy glicio ar **here**.

**7. PAPURAU CEFNDIR**

7.1 Polisi Gwneud Penderfyniadau, OPCC Gogledd Cymru

7.2 Gorchymyn (Gwybodaeth Benodedig) Cyrff Plismona Lleol Etholedig 2011

7.3 Gorchymyn (Gwybodaeth Benodedig) Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Diwygiad) 2012

7.4 Gorchymyn (Gwybodaeth Benodedig) Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Diwygiad) 2013

**Awdur yr Adroddiad**

M Jones, Swyddog Gweithredol,
Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

*(Paratowyd yr adroddiad hwn ar 27 Tachwedd 2017)*

**Diweddariad i'r Panel Heddlu a Throseddu**
**11 Rhagfyr 2017**
***Arfon Jones, Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Gogledd Cymru***

**Cyflwyniad**

Dyma fy adroddiad i'r Panel am y cyfnod o 15 Awst tan 1 Tachwedd 2017.

Ymdrinia'r adroddiad hwn â pherfformiad yn erbyn Cynllun Heddlu a Throseddu 2017-2021. Nid oes a wnelo'r adroddiad â'r gofynion adrodd statudol penodol. Mae a wnelo'n bennaf â swyddogaeth ehangach y Panel dan adran 28 (6) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) i adolygu neu graffu'r penderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (y Comisiynydd) dros Ogledd Cymru a gwneud adroddiadau ac argymhellion i mi fel Comisiynydd yn hynny o beth. Yn ogystal, yn unol ag adran 13 (1) y Ddeddf, mae'n darparu gwybodaeth i'r Panel y mae'r Panel yn gofyn yn rhesymol i'r Comisiynydd er mwyn cyflawni ei swyddogaethau (y ceisiadau penodol).

## Adran Un: Fy ngwaith o graffu Heddlu Gogledd Cymru

Bydd aelodau'r panel yn ymwybodol fy mod i'n bwriadu blaenoriaethu'r meysydd hynny a ddynodwyd fel y prif feysydd bygythiad, risg a niwed yn 2017-2021. Sef:

- **Cam-drin Domestig**
- **Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl**
- **Cam-drin Rhywiol gan gynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant**
- **Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol**

Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, mae gwasanaeth heddlu gweledol a hygyrch yn parhau i fod o bwys i'r cyhoedd. Adlewyrcha'r Cynllun yr hyn y mae'r cyhoedd a'r Panel Heddlu a Throseddu wedi'i ddweud wrthyf ac mae **Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel** yn parhau'n flaenoriaeth i mi.

Yn unol â hynny, rydw i bellach yn craffu Heddlu Gogledd Cymru trwy fesur ei berfformiad yn erbyn y pum blaenoriaeth hyn. Mae'r prif gyfrwng rwy'n cynnal y swyddogaeth graffu honno drwyddi'n parhau i fod trwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol (BGS) rwy'n ei gadeirio ac y mae'r Prif Gwnstabl a'i uwch heddweision yn eistedd arno. Cyflwynir adroddiad perfformiad gan yr Heddlu ym mhob cyfarfod BGS sy'n gosod y safle cyfredol a'r heriau mewn perthynas â phob blaenoriaeth.

Er fy mod i'n monitro perfformiad yr Heddlu yn erbyn y pum blaenoriaeth hyn yn fy nghyfarfodydd BGS, mae angen i agweddau eraill ar blismona barhau i gael eu cyflwyno'n effeithiol ac yn effeithlon wrth reswm. Yn hynny o beth, caiff rhywfaint o wybodaeth mewn perthynas â phlismona craidd ei graffu yn BGS hefyd.

**Blaenoriaeth 1: Cam-drin Domestig**

Mae adolygiadau o gofnodion a wneir gan Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â cham-drin domestig, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a chaethwasiaeth fodern yn dangos gwelliannau sylweddol yn gyffredinol o gymharu â gwaelodlin mis Mawrth 2017 am dystiolaeth o ddiogelu, cyfeiriad goruchwyliol, cynnydd cyflym a chydymffurfiaeth â 'Chod Ymarfer y Dioddefwyr'.


Mae newidiadau a wnaed i brosesau cofnodi'n sicrhau bod yr Heddlu'n dal pob trosedd ddomestig, boed a gaiff ei nodi fel trosedd ychwanegol i'r digwyddiad a adroddwyd yn ei gylch neu drwy atgyfeiriad trydydd parti.

Rhoddir pwyslais cynyddol ar Stelcian ac Aflonyddu. Caiff achosion eu craffu trwy Banel Craffu'r Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn i sicrhau dysgu ac i gynorthwyo wrth ddatblygu arweiniad effeithiol i ddelio â'r maes gwendid hwn. Cynrychiolir fy swyddfa ar y Panel Craffu.


Mae pob achos 'dioddefwyr Cam-drin Domestig' risg uchel bellach yn cael eu hymchwilio gan dditectif yn ddiofyn.

Cafwyd cynnydd o 42.7% yn y troseddau cysylltiedig â cham-drin domestig a gofnodwyd, sydd wedi bod yn destun ymchwil bellach. Mae'r holl dystiolaeth a astudiwyd yn cefnogi'r ddamcaniaeth bod y cynnydd o ganlyniad i well cofnodi troseddau, yn hytrach na chynnydd mewn troseddu. O ganlyniad, fodd bynnag, mae lefelau erledigaeth mynych wedi cynyddu, y mae'r amseru'n cyd-daro â'r cynnydd mewn cofnodi. Mae'r un peth yn berthnasol i droseddu mynych.

Tuedd mewn dioddefwyr domestig mynych




Tuedd mewn dioddefwyr domestig mynych



Mae nifer o ddamcaniaethau wedi'u rhoi gerbron yn ymwneud â chodiadau mewn troseddau ac absenoldeb cynnydd cydberthynol mewn arestiadau. Rydw i wrthi'n gweithio gyda'r Heddlu i brofi'r damcaniaethau hyn.

**Troseddau a gofnodwyd a'r canlyniadau**

a) Byddai creu troseddau amryfal o'r un digwyddiad yn arwain at gynnydd yn y troseddau cysylltiedig â throseddau domestig a gofnodir;

b) Os crëir troseddau amryfal, ni roddir canlyniad cadarnhaol i bob un ohonynt os mai dim ond un cyhuddiad sy'n codi;


c) Mae'r cynnydd mewn trais heb anaf a gofnodir yn duedd genedlaethol.

**Arestiadau**

d) Ceir cynnydd mewn presenoldeb gwirfoddol sydd wedi gorbwyso'r diffyg cynnydd mewn arestiadau;

e) Mae gan droseddau ychwanegol a gofnodir o ganlyniad i hygrededd cofnodi troseddau lai o gyfle am arestiad, gan gynnwys troseddau a gofnodir yn hanesyddol.

**Arestiadau Domestig**





| | YTD | Last YTD | % Change |
|---|---|---|---|
| Anglesey | 90 | 89 | 1.1% |
| Gwynedd | 161 | 176 | -8.5% |
| Conwy | 150 | 159 | -5.7% |
| Denbighshire | 109 | 116 | -6.0% |
| Flintshire | 149 | 160 | -6.9% |
| Wrexham | 188 | 190 | -1.1% |
| Force | 847 | 890 | -4.8% |

Ymddengys bod arestiadau am droseddau cysylltiedig â throseddau domestig wedi sefydlogi'n ddiweddar, gan ddychwelyd i lefelau a welwyd yn flaenorol cyn i'r lefelau gwympo ym mis Chwefror a mis Mawrth 2017. Ni chafwyd arwydd gan yr arweinydd strategol am gam-drin domestig nac yn weithredol y bu newid ym mholisi'r Heddlu ar arestio am droseddau sy'n gysylltiedig â throseddau domestig. Mae'r sefydlogrwydd mewn arestiadau, er gwaetha'r cynnydd mewn troseddau sy'n gysylltiedig â'r domestig yn dangos bod yna broses gyson waelodol.

Mae data Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dangos bod achosion llys llwyddiannus mewn Cam-drin Domestig yn gyson ac yn gadarnhaol. Mae achosion cam-drin domestig llwyddiannus yn y llys yn parhau'n uchel ar dros 80%.

| | Llwyddiannus | Cyfanswm Achosion | % sy'n llwyddo |
|---|---|---|---|
| Y Mis | 92 | 109 | 84.4% |
| Blwyddyn Hyd yma | 371 | 461 | 80.5% |
| Y Flwyddyn Ddiwethaf Hyd Yma | 336 | 427 | 78.7% |




Ceir gwelliant o 1.8 pwynt canran ar y flwyddyn ddiwethaf hyd yma, fel yr oedd ym mis Gorffennaf 2017.

**Sut ydw i wedi gwneud gwahaniaeth yn ystod y cyfnod hwn?**

- Craffu rheolaidd trwy Banel Craffu'r Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn;
- Datblygu Rhaglenni Ymyrraeth Tramgwyddwyr gyda'r Heddlu a phartneriaid;
- Edrych ar y potensial i ddatblygu Prosiect IRIS yng Ngogledd Cymru – hyfforddiant i Feddygon Teulu ar ymwybyddiaeth o gam-drin domestig;
- Eistedd ar Fwrdd Strategol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru
- Cefais sesiwn friffio gynhwysfawr ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod gan Arweinydd Strategol yr Heddlu;
- Rwy'n disgwyl cyfarfod â Dr Cerys Miles, seicolegydd fforensig sy'n gweithio fel Pennaeth Polisi Tramgwyddwyr Trais yn Erbyn Menywod, Trais Domestig a Rhywiol ledled Cymru, sy'n gyfrifol am gefnogi gwaith datblygu a chomisiynu gwasanaethau tramgwyddwyr effeithiol.

**Blaenoriaeth 2: Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl**

Mae nifer y troseddau a gofnodwyd yn parhau'n isel, ac nid yw'n adlewyrchu'r swm mawr o weithgarwch sy'n cael ei gyflawni.

Mewn achosion lle nad oes gweithgarwch troseddol, cyflawnwyd canlyniadau cadarnhaol eraill gan ddefnyddio deddfwriaeth partneriaid – er enghraifft isafswm cyflog.


Mae gwaith partneriaeth helaeth yn mynd rhagddo ac yn cael ei ddatblygu.

Mae ein hymwybyddiaeth o raddfa gweithgarwch troseddol wedi cynyddu.


Mae llif ariannu wedi'i ddynodi i gynyddu tîm Caethwasiaeth Fodern yr heddlu. Bydd hyn yn galluogi ar gyfer mwy o ryngweithio gyda phartneriaethau a lledaenu arfer gorau.

Adroddwyd ar bum trosedd caethwasiaeth fodern ym mis Awst, sef y mis newydd ei archwilio.

Mae'r siartiau isod yn amlinellu nifer sefydlog o ddigwyddiadau sy'n cael eu cofnodi. Mae'r codiad sydyn yn y data yn dynodi digwyddiadau a throseddau Op Lenten.




Mae data'r siart isod yn amlygu bod llif sefydlog o ddeallusrwydd yn cael ei gofnodi:




Mae'r tabl isod yn dangos cynnydd blwyddyn ar ôl blwyddyn o ran cofnodi deallusrwydd, gan amlygu bod gweithwyr Heddlu Gogledd Cymru'n ymwybodol ac yn cael cyfarwyddyd ar y gofynion o ran troseddau Caethwasiaeth Fodern posibl.

| Math o Gofnod | Blwyddyn Ddiwethaf Hyd Yma | Blwyddyn Hyd Yma | % Newid |
|---|---|---|---|
| Digwyddiadau | 69 | 41 | -40.6% |
| Troseddau | 65 | 22 | -66.2% |
| Intel (Enw'r Sefydliad = Caethwasiaeth Fodern) | 125 | 358 | 186.4% |

## Y darlun cenedlaethol

Yn 2016, cyflwynwyd 3,805 o ddarpar ddioddefwyr i'r NRM (Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol), cynnydd o 17% o 2015.




- Roedd y darpar ddioddefwyr yn dod o 108 o wahanol wledydd o bedwar ban byd; Albania, y Deyrnas Unedig a Vietnam oedd y gwledydd brodorol mwyaf cyffredin.
- Y math o gam-fanteisio mwyaf cyffredin a gofnodwyd ar gyfer darpar ddioddefwyr fel oedolion oedd cam-fanteisio ar weithwyr, gan gynnwys cam-fanteisio'n droseddol.
- I bobl dan oedran, y math o gam-fanteisio mwyaf cyffredin oedd cam-fanteisio ar weithwyr.

O'r 3805 o ddarpar ddioddefwyr yn genedlaethol, dynodwyd 123 yng **Nghymru**.

- 62 o fenywod, 61 o wrywod. 102 o oedolion a 21 o blant dan oed
- Bu 78% o ddarpar ddioddefwyr gwrywaidd yn destun camfanteisio ar weithwyr. Roedd cam-fanteisio rhywiol (55%) a chaethwasanaeth domestig (32%) yn fwy cyffredin i ddarpar ddioddefwyr benywaidd.
- Roedd y darpar ddioddefwyr o 37 gwlad. Yr un mwyaf cyffredin oedd yn Bietnam gydag 13% o'r cyfanswm.

Mae'n hollbwysig bod partneriaid yn cydweithio i ddiogelu dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern a chyflwyno ystod o ymyriadau amlasiantaeth.

Sut ydw i wedi gwneud gwahaniaeth yn ystod y cyfnod hwn?


- Cynrychiolir Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar banel Craffu Caethwasiaeth Fodern sy'n adolygu achosion Caethwasiaeth Fodern yn erbyn safonau ymchwiliol

cenedlaethol i asesu cydymffurfiaeth. Rwy'n cael fy nghynrychioli ar Grŵp Caethwasiaeth Fodern Ranbarthol Gogledd Cymru. Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ar 21 Medi 2017 ac fe'i mynychwyd gan fy Nirprwy, Ann Griffith. Cynhaliwyd trafodaeth bwysig yn y cyfarfod hwnnw ynghylch diffyg gweithgarwch a dealltwriaeth yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern gan nifer o bartneriaid, yn enwedig yr awdurdodau lleol. Dyma'r rheswm y penderfynais gynnal cynhadledd i gynyddu'r ddealltwriaeth a'r ymwybyddiaeth o bartneriaid sector cyhoeddus allweddol ynghylch mater caethwasiaeth fodern, sut mae'n gallu amlygu ei hun a pha faterion mae hyn yn codi.

- Ar 26 Hydref 2017, cynhaliais gynhadledd yn dwyn y teitl - ***Caethwasiaeth Fodern: Deall Eich Cyfrifoldebau***. Aeth cryn dipyn o gynllunio i ddarparu'r gynhadledd hon. Cysylltais yn bersonol â Phrif Swyddogion Gweithredol pob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn uniongyrchol i sicrhau bod aelodau staff addas ac aelodau etholedig perthnasol yn cael eu hannog i fynychu. Deuthum â nifer o enwau amlwg ym maes caethwasiaeth fodern at ei gilydd i roi cyflwyniadau i'r gynhadledd. Roedd hyn yn cynnwys y Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Trechu Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl yn yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, Roy McComb, Prif Weithredwr Awdurdod Cam-drin Gweithwyr y Meistri Gangiau, Paul Broadbent a'r Comisiynydd Gwrth-Gaethwasiaeth Annibynnol Cenedlaethol, Kevin Hyland OBE. Nid yn unig y mae pob un o'r rhain yn arbenigwr yn eu maes ond maen nhw'n cynnal portffolio arweiniol cenedlaethol i drechu caethwasiaeth fodern. Ni allai'r gynhadledd fod wedi cael grŵp amlycach o arbenigwyr i gyflwyno'r neges.
- Yn ogystal, cyflwynon ni 3 gweithdy yn y digwyddiad a gefnogwyd gan Uned Caethwasiaeth Fodern Heddlu Gogledd Cymru, Hyfforddiant Heddlu Gogledd Cymru ac Uned Gwrth-Gaethwasiaeth Llywodraeth Cymru. Anelwyd y gweithdai at wahanol feysydd busnes lle gallai awdurdod lleol weld caethwasiaeth fodern yn codi. Roedd hyn yn cynnwys ymatebwyr cyntaf sy'n destun y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol megis gweithwyr cymdeithasol, pobl eraill a allai feddu ar rôl sy'n ymhél mwy â diogelu'r cyhoedd, er enghraifft gwasanaethau amgylcheddol, trwyddedu neu gynllunio a hefyd y rhai mewn caffael.
- Mae fy swyddfa wedi cael adborth gan bobl a fynychodd i'n canmol ni ar gynnal y digwyddiad ac am godi ymwybyddiaeth o'r mater.
- Mae cynnal y digwyddiad hwn wedi fy helpu i godi ymwybyddiaeth gyda phartneriaid allweddol yr awdurdod lleol, ond rwy'n ymwybodol fod yna sectorau eraill a fydd hefyd yn elwa ar ymwybyddiaeth gynyddol o'r pwnc hwn, yn enwedig y diwydiant twristiaeth a gwestai yng Ngogledd Cymru. Gydag arweinyddiaeth y Grŵp Rhanbarthol, rwy'n edrych i gefnogi menter arall i godi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern ymhlith diwydiant twristiaeth Gogledd Cymru.

**Blaenoriaeth 3: Cam-drin Rhywiol gan gynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant**

- Erys y troseddau cysylltiedig â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn isel ond gellid priodoli dwysâd yn ystod yr wythnosau diwethaf i weithgarwch ar Ynys Môn.




- Mae Tîm Onyx (tîm Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant arbenigol Heddlu Gogledd Cymru), ar y cyd â chydweithwyr yr Awdurdod Lleol, yn parhau i weithio gydag ac yn cefnogi nifer o blant diamddiffyn sydd mewn perygl o gael eu cam-fanteisio'n rhywiol arnynt ar draws Gogledd Cymru. Ar hyn o bryd, dynodwyd bod 90 o blant ledled Gogledd Cymru mewn perygl o fod yn destun Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

- Mae data ar goll o'r cartref mewn perthynas â phlant yn dangos darlun cyson o ran y nifer sydd ar goll a'r nifer a ganfuwyd. Mae'r gyfran sydd ar goll o ofal yn gyson hefyd gyda 43% eleni a 44% llynedd.

- Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Ar-lein – Mae'r galw yn POLIT (tîm Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar-lein) wedi cynyddu gan ryw 21% dros y tri mis diwethaf o gymharu â'r un cyfnod llynedd. Mae'r cynnydd cyfredol hwn yn amlygu ei hun rhwng pedwar a phum gwarant sy'n cael eu cwblhau'n wythnosol.

- Mae staff o Dîm Onyx bellach wedi darparu mewnbynnau hyfforddi i fwyafrif y Timau Cymdogaeth Ddiogelach yn Heddlu Gogledd Cymru.

- Mae'r Rheoleiddiwr Gwyddor Fforensig – Heddlu Gogledd Cymru bellach yn un o bum heddlu cenedlaethol sydd wedi cyflawni achrediad am ddelweddu a chaffael data digidol o arddangosion a atafaelwyd.

Mae Tîm Onyx a'r NSPCC yn parhau i gydweithio er mwyn dynodi a darparu ymyriad Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Diogelu a Pharchu yr NSPCC ar draws Gogledd Cymru. Gwasanaeth tymor hir yw'r ymyriad Diogelu a Pharchu sydd wedi'i anelu at y plant hynny sydd, yn anffodus, eisoes wedi'u camfanteisio'n rhywiol arnynt o bosibl.

Ar hyn o bryd, mae Tîm Onyx ynghlwm â dylunio, cyflwyno a gwerthuso cynlluniau peilot amlasiantaeth fel ffordd o ymyrryd yn gynnar i ddargyfeirio plant rhag bod yn ddioddefwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant. Cynhelir y treialon hyn yn Sir y Fflint a Chonwy. Mae a wnelo'r treialon â chyflwyno nifer o themâu allweddol gan arbenigwyr pwnc sydd wedi'u hanelu at leihau'r tebygolrwydd y bydd cyfranogwyr yn dod yn ddioddefwyr Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Rhan allweddol o'r cynlluniau peilot yw cynnwys cefnogaeth ac arweiniad ychwanegol i rieni/gwarcheidwaid y plant dan sylw.

Cwblhawyd y peilot cyntaf yng Nghonwy gydag adborth cadarnhaol yn dod i law gan yr asiantaethau partner a'r plant sydd ynghlwm. Mae'r adborth hwn a'r peilot ei hun yn cael eu gwerthuso gan ddefnyddio data ansoddol a meintiol i lywio darpariaeth y dyfodol yn well.

Mae Gweithiwr Cymdeithasol rhanbarthol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant o'r NSPCC bellach yn gweithio ochr yn ochr ag Onyx ac Awdurdodau Lleol i adolygu a gwerthuso arferion a gwasanaethau diogelu ym mhob Ardal Awdurdod Lleol.

**Sut ydw i wedi gwneud gwahaniaeth yn ystod y cyfnod hwn?**

- Rydw i a Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn poeni ynghylch tynnu gwasanaeth Cyfweliad Dychwelyd Adref Barnardo's yn ôl gan fod y gwasanaeth hwn yn amhrisiadwy wrth ddynodi plant mewn perygl o gael eu Camfanteisio'n Rhywiol arnynt ac rydym yn poeni bod tynnu'r gwasanaeth hwn yn ôl wedi arwain at lai o droseddau Camfanteisio'n Rhywiol ar blant yn cael eu darganfod. Rwy'n deall fod yr awdurdodau lleol bellach wedi cydnabod y risg hwn ac mae Mohammed Mehmet, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych yn paratoi adroddiad ar y mater hwn i Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.
- Rwy'n craffu materion yn ymwneud â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar fy Mwrdd Gweithredol Strategol a thrwy bresenoldeb fy Nhîm ar Banel Craffu Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn yr Heddlu.


**Blaenoriaeth 4: Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol (OCG)**

**Pwyntiau allweddol**

- Mae'r sgôr risg strategol (y sgôr risg a benderfynir gan Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â phob blaenoriaeth plismona) wedi cynyddu'n bennaf oherwydd y risg mewn perthynas â chyflenwi cyffuriau dosbarth A.
- Erys arestiadau cysylltiedig â chyffuriau ar lefelau tebyg i'r llynedd ond mae'r tri mis diwethaf wedi dangos lefelau uwch na'r arfer.
- Mae nifer o orchmynion Deddf Enillion Troseddau (POCA) wedi bod yn llwyddiannus gan gynnwys Operation Analogue (byrgleriaethau Aur Asiaidd) sy'n sefyll ar £1,010,675 ar hyn o bryd.
- Er mwyn amlygu ymrwymiad Heddlu Gogledd Cymru i fynd i'r afael â throseddau cyfundrefnol, mae un Grŵp Troseddu Cyfundrefnol a dargedwyd wedi arwain at arestio dros 60 o bobl, Stopio a Chwilio 100 o bobl, 29 Gwarant a chipio dros 70 o ffonau symudol mewn cyfnod o 12 mis.
- Mae'r Timau Cymdogaeth Ddiogelach wedi cyflawni 2 orchymyn cau yn llawn yn llwyddiannus ac 1 gorchymyn cau yn rhannol (gyda mwy ar y gweill). 'Hysbysebwyd' hyn yn helaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- Mae Operation Scorpion yn targedu'n uniongyrchol y rhai sy'n ymhél â throseddau difrifol a chyfundrefnol, mae datganiadau i'r cyfryngau diweddar yn cynnwys:
    - Yr heddlu'n targedu'r cyflenwad cyffuriau yn Llandudno
    - Yr heddlu'n 'diogelu' dioddefwyr yn ystod gweithrediad Caethwasiaeth Fodern yng Nglannau Dyfrdwy.
    - Gweithrediad amlasiantaeth ym Mhorthladd Caergybi sy'n brwydro yn erbyn Caethwasiaeth Fodern
    - Llwyddiant wrth erlyn a chael gang troseddu o Wynedd ac Ynys Môn yn euog o drosedd yn ymwneud â thwyll a gweithrediad gwyngalchu arian a adawodd pedwar unigolyn diamddiffyn yn colli dros £700,000.


## Arestiadau cysylltiedig â chyffuriau

Er mis Mai 2017, cafwyd cynnydd yn nifer yr arestiadau cysylltiedig â chyffuriau.




## Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr – Canfyddiadau o'r Defnydd o Gyffuriau

Saif canfyddiadau o Ddefnydd Cyffuriau ar 24.3% am y 12 mis hyd at fis Mehefin 2017, gan ddangos ychydig o ostyngiad cadarnhaol o 0.2pp o'r 12 mis hyd at fis Mawrth 2017. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn syrthio 2 le i 28ain yn genedlaethol, ond yn aros yn 7fed yn ein Grŵp Mwyaf Tebyg a'r 1af yng Nghymru.




**Sut ydw i wedi gwneud gwahaniaeth yn ystod y cyfnod hwn?**

- Fel Cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru, rydw i'n cael sesiynau briffio cyson am nifer y gorchmynion Deddf Enillion Troseddau a gwaith Uned Ymchwiliadau Ariannol yr Heddlu;
- Mae disgwyl imi gyfarfod â chynrychiolwyr Crimestoppers i drafod Llinellau Sirol a meddiannu eiddo diamddiffyn;

- Cyfarfu'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu a minnau gydag Evan Jones o St Giles' Trust i drafod prosiect y mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol amdano yn Ne Cymru mewn perthynas â Llinellau Sirol ar hyn o bryd (lle caiff pobl ifanc ddiamddiffyn eu gorfodi gan gangiau troseddol i smyglo a delio mewn cyffuriau caled ar draws trefi wedi'u hamddifadu'n gymdeithasol yn Ne Cymru).
- Amlygodd y Gynhadledd Caethwasiaeth Fodern a gynhaliais yn ddiweddar i bartneriaid pa mor agos yw'r cysylltiad rhwng Caethwasiaeth Fodern a Throseddu Cyfundrefnol - o ganlyniad i'r cyswllt agos hwn, mae Proffil lleol Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol Amlasiantaeth ar gyfer Caethwasiaeth Fodern wedi'i chwblhau.

**Blaenoriaeth 5: Darparu Cymdogaethau Diogelach**

**Pwyntiau allweddol**

- Mae'r dangosyddion cenedlaethol yn parhau'n gadarnhaol gyda 74.3% o'r cyhoedd yn cytuno bod Heddlu Gogledd Cymru'n deall materion cymunedol. Saif Heddlu Gogledd Cymru yn 8fed ymhlith yr holl Heddluoedd yn hyn o beth.

- Mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr Heddlu'n dangos ymgysylltiad iach, sy'n tyfu a gefnogwyd gan yr Arolwg Hyder y Cyhoedd diweddar a ddangosodd lefelau ymgysylltiad uwch ac adborth cadarnhaol ar hygyrchedd.

- Cyflwynwyd 1350 o ddyfeisiau Samsung S7 ym mis Chwefror 2017 i heddweision y rheng flaen ac i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, gyda gweithrediad ap ar gyfer System Rheoli Cofnodion yr Heddlu'n cael ei rhyddhau ym mis Mehefin 2017.

- Bydd diweddariad nesaf yr ap yn cynnwys galluogi heddweision i lenwi amrywiaeth o ffurflenni (megis CID16 a ffurflenni Marwolaeth Sydyn) ar eu dyfeisiau symudol.

- Cafwyd nifer fawr o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd yn y chwarter diwethaf, un enghraifft oedd sesiwn galw heibio 'Paned gyda'r Plismyn' mewn nifer o ardaloedd.

- Cynhaliwyd Digwyddiadau Partneriaethau Datrys Problemau ar 19 Medi 2017 yng Ngwesty Deganwy Quays. Cofleidiodd y digwyddiad y cyfan sy'n dda am weithio mewn partneriaeth ac anogwyd rhagor o gyfranogiad trwy Wobrwyo a Chydnabyddiaeth.

- Ar hyn o bryd, mae 199 o Heddweision Arbennig ar waith er 31 Hydref 2017, gyda tharged o 300 erbyn mis Ebrill 2019. Fodd bynnag, mae tyniadau yn sgil rhai'n ymuno â'r heddlu arferol yn cael effaith ar gyrraedd y ffigur hwn erbyn y dyddiad disgwyliedig.

- Sefydlwyd Grŵp Defnyddwyr Technoleg Symudol gyda chynrychiolwyr yn mynychu o'r meysydd gwasanaeth. Cynigia'r fforwm gyfle i ddefnyddwyr gyfrannu syniadau ar gyfer datblygiadau i'r dyfodol ac i ddarparu adborth ar atebion presennol er mwyn chwarae rôl bwysig wrth sicrhau bod y prosiect yn canolbwyntio ar y pethau iawn a bod yr hyn a gyflawnir yn gwneud gwahaniaeth.

**Sut ydw i wedi gwneud gwahaniaeth yn ystod y cyfnod hwn?**

- Mae'r adran ymgysylltu a chyfathrebu yn Rhan 2 yr adroddiad yn dangos fy mod i'n ymgysylltu'n rheolaidd gydag aelodau'r cyhoedd, busnesau, sefydliadau trydydd sector,

heddweision a staff, a chynrychiolwyr etholedig o bob cwr o Ogledd Cymru. Mae pob un o'r cyfarfodydd hyn yn fy ngalluogi i gadarnhau pa mor effeithiol yw Heddlu Gogledd Cymru am ddeall materion cymunedol a pha mor gysylltiedig mae'r cyhoedd yn teimlo mewn perthynas â materion plismona.

- Yn ogystal, mae fy nhîm yn craffu cynlluniau Ymgysylltu'r Heddlu'n gyson, ac yn craffu sut mae'r Heddlu'n perfformio yn erbyn fy Mlaenoriaeth Plismona 'Darparu Cymdogaethau Diogelach' yn fy nghyfarfodydd Bwrdd Gweithredol Strategol.

**Perfformiad Cenedlaethol**

Mae Arolwg Troseddau yng Nghymru a Lloegr diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi lle mae cynnydd mewn troseddau rhwng mis Mehefin 2016 a mis Mehefin 2017 yn y cwestiwn, graddiwyd Heddlu Gogledd Cymru yn 6ed gyda chynnydd o 7% (h.y. roedd gan Heddlu Gogledd Cymru'r 6ed cynnydd isaf).

Gwelodd yr heddlu gynnydd ym mwyafrif y categorïau troseddau ond gwelodd ostyngiadau mewn byrgleriaethau annomestig (gan 14%), difrod troseddol a llosgi bwriadol (gan 6%), troseddau cyffuriau (gan 6%) a throseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus (gan 8%).

Y cynnydd oedd trais yn erbyn yr unigolyn (hyd at 19%), trais gydag anaf (16%), stelcian ac aflonyddwch (23%), troseddau rhywiol (27%), lladrad (19%), troseddau lladrata (4%), byrgleriaeth (2%), byrgleriaeth ddomestig (25%), troseddau cerbydau (6%), lladrata wrth yr unigolyn (22%), dwyn beiciau (4%), dwyn o siop (3%), pob trosedd lladrata arall (4%), meddu ar erfyn niweidiol (1%) a throseddau amryfal (17%).

Fel y nodwyd uchod, mae angen gwaith craffu pellach gennyf i a'm swyddfa i ddeall y cynnydd o 19% mewn trais yn erbyn yr unigolyn. Fodd bynnag, fel yr esboniwyd i'r Panel yn ei gyfarfod diweddaraf gan y Prif Arolygydd Paul Jones, mae'r holl dystiolaeth a astudiwyd yn cefnogi'r ddamcaniaeth fod y cynnydd o ganlyniad i well cofnodi troseddau, yn hytrach na chynnydd mewn troseddu gwirioneddol.

**Adran Two: Diweddariadau Cyffredinol**

Rwy'n darparu crynodeb cryno i'r Panel yn y rhan hon o'r prif bethau rydw i wedi bod yn eu gwneud ers cyfarfod diwethaf y Panel.

**Ymgysylltu a Chyfathrebu**

Rhan o'm rôl yw darparu gwybodaeth a galluogi'r gymuned i blismona.

O 15 Awst tan 1 Tachwedd 2017, cyfarfûm â'r canlynol (yn ogystal â heddweision a staff o Heddlu Gogledd Cymru):

- Jenny Williams a Neil Ayling mewn perthynas â Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion Gogledd Cymru;
- Evan Jones o St Giles Trust;
- Cynrychiolwyr Cymdeithas Cymdogaeth Gogledd Cymru;
- Ffrancon Williams o Gartrefi Cymunedol Gwynedd;
- Only Boys Allowed;
- Clwb Gweithwyr Gwersyllt;

- Cymdeithas Ynadon Clwyd;
- Arch Communities;
- Mr Ian Papworth o'r North Wales Women's Centre;
- Ffederasiwn Clwyd Dinbych o Sefydliad y Merched yn Llangollen;
- Cynrychiolwyr Transform;
- Cynrychiolwyr Bristol Drug Education Scheme;
- Mr Tom Gash;
- Rosanna O'Connor, Cyfarwyddwr yr Isadran Alcohol, Cyffuriau a Baco;
- Niamh Eastwood;
- Paul Glaze, Prif Weithredwr Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru;
- Dioddefwr a'u teulu;
- Hope Restored.

Mynychais y canlynol hefyd:

- Sioe Amaethyddol Môn;
- Cyfarfod y Bwrdd Gweithredol Strategol;
- Sioe Dinbych a'r Fflint;
- Sioe Sirol Meirionnydd;
- Cyfarfod Grŵp Llywio'r Ganolfan Lleihau Niwed Estynedig;
- Cyfarfod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru;
- Hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern;
- Digwyddiad Iechyd a Lles Cymunedol;
- Digwyddiad Adolygu Diogelwch Cymunedol Rhanbarthol Gogledd Cymru;
- Cyfarfod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru Gyfan yn Llandrindod;
- Lansio trydydd adroddiad sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg;
- Cyfarfod Bwrdd Cymunedau Diogelach;
- Rhwydwaith Gwrth-fasnachu a Chaethwasiaeth Fodern Genedlaethol;
- Cyfarfod Cyffredinol yr APCC;
- Cyfarfodydd Chwarterol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Orllewin Lloegr a'r Prif Weithredwr;
- Diwrnod Datblygu'r Panel Heddlu a Throseddu;
- Sesiwn friffio gan Dyfodol;
- Cynhadledd Caethwasiaeth Fodern Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Ers cyfarfod diwethaf y Panel, yn ogystal â chyfarfod â chynrychiolwyr y gymuned, partneriaid ac aelodau'r cyhoedd, mae fy Nirprwy a minnau wedi ymgymryd â sawl gweithgaredd allweddol yn y cyfryngau. Maen nhw'n cynnwys:

Pennaeth Heddlu yn feirniadol iawn o ymateb "Nawddoglyd" golygydd Newsnight

Arian troseddwyr yn rhoi hwb i grwpiau cymunedol

Yr Arglwydd Ferrers

Angen i ni gymryd rheolaeth o gyfiawnder ieuenctid, medd pennaeth yr heddlu

Côr bechgyn yn paratoi ar gyfer teyrnged deimladwy i Hedd Wyn

Tîm Pêl-droed Ymfudwyr yn camu i'r cae

Matthew yw Swyddog Cefnogi Dioddefwyr Cyntaf Caethwasiaeth Fodern y DU

Comisiynydd yr Heddlu'n datgan cefnogaeth

Jamie'n cael ei weld fel esiampl i'w ddilyn: dechrau newydd i ddyn a arferai fod yn ddigartref a fu'n cysgu mewn ogof a dioddef pobl yn piso ar ei ben

Rheolwr heddlu yn annog cefnogwyr i ymddwyn er mwyn byrstio'r swigen am byth

Comisiynydd am weithio'n glyfrach i leihau pwysau cynyddol ar yr heddlu

**The Deputy Police and Crime Commissioner, Ann Griffith**

The Panel asked to be informed about the work of the Deputy Commissioner. She is fully and very effectively committed to her very demanding work programme, as detailed below:

- Attended the Anglesey Show;
- Attended a Strategic Executive Board meeting;
- Met with Jan Williams from the IPCC for a quarterly professional standards meeting;
- Met with Evan Jones from St Giles Trust regarding County Lines;
- Met with representatives from the North Wales Neighbourhood Association;
- Op Lenten- received a briefing from Ruth Hale from Barnardo's.
- Attended the Meirionydd County Show;
- Met with Tim Nunn from Welsh Government;
- Visited young people at Isallt, Llandudno regarding the Children's Strategy;
- Sat on the Panel for the Problem Orientated Policing Awards;
- Met with young people from GISDA at Blaenau Ffestiniog;
- Attended a meeting of the All Wales Women's Pathfinder Governance Group;
- Met with Mark Parry, North Wales Service Manager for NSPCC;
- Met with Tracey Owen from NPS;
- Met with young people from Digartref Ynys Môn;
- Attended a meeting of the North Wales Criminal Justice Board;
- Gave an interview to Newyddion 9 on S4C regarding substance misuse and women;
- Provided an input into police officer training;
- Met with Barbara and Stuart Walls, managers of a supported living project in Flint;
- Met with Wendy Hyatt regarding the All Wales Women's Pathfinder;
- Attended a IOM Cymru Regional Group meeting;
- Attended a meeting regarding the North Wales Regional Community Safety Review;
- Met with the Children's Commissioner, Sally Holland;
- Attended a meeting of the IOM Cymru Board;
- Visited Clwyd Alyn's supported living project in Rhyl;
- Attended an all Wales PCCs' meeting;
- Held a quarterly Professional Standards Scrutiny meeting;
- Met with the other Welsh Deputy PCCs;
- Gave a presentation on her role to Merched y Wawr, Chwilog;
- Attended a workshop hosted by the Association of Police and Crime Commissioners;
- Attended a meeting of the Regional Modern Slavery Network;

- Attended an APCC General Meeting;
- Attended an All Wales Criminal Justice Board meeting at HMP Berwyn;
- Attended the Police and Crime Panel's development day;
- Attended an IPCC seminar on 'near misses';
- Attended an APCC/NPCC Joint Summit.

**Comisiynu**

Bydd y Polisi Gwerth Cymdeithasol yn cael ei lansio ar 16 Tachwedd yng Nghanolfan Fusnes Conwy.

Ers fy adroddiad blaenorol i'r Panel, mae fy nhîm wedi bod yn bwydo i Strategaeth Ranbarthol ac Asesiad o Anghenion Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) i sicrhau bod blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu'n cael eu bodloni. Gwnaed gwaith pellach gyda'r sector i ymddwyn fel Bancwr Rhanbarthol ar gyfer Grant Llywodraeth Cymru yn hyn o beth. Disgwylir y bydd y penderfyniad hwn yn cael ei gadarnhau ym Mwrdd Strategol VAWDASV ar 15 Tachwedd.

Cefais wybod yn ddiweddar fod Cais Trawsnewid Cymru Gyfan am £6.8m mewn perthynas â rhaglen Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru Gyfan wedi bod yn llwyddiannus. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'm cydweithwyr a'm rhanddeiliaid i gadarnhau sut bydd y cyllid hwn yn ein cynorthwyo i fynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yng Ngogledd Cymru.

Cynhaliais ddigwyddiad Adolygu Diogelwch Cymunedol ar ran Llywodraeth Cymru yn yr Optic yn Llanelwy ar 2 Hydref. Ymhlith y mynychwyr roedd cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, y trydydd sector, a gwasanaethau a gomisiynwyd. Plethodd y digwyddiad hwn y gwaith a wnaed gan fy swyddfa'n adolygu sut dosberthir y Gronfa Trosedd ac Anhrefn i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ar draws yr ardal. O ganlyniad i'r adolygiad, penderfynwyd, yn hytrach na chlustnodi'r cyllid hwn yn awtomatig i'r CSPs, bydd y gronfa bellach yn cael ei defnyddio fel grant i bob sefydliad cyfrannog wneud cais iddo. Prif nod yr arian hwn fydd ymyrryd yn gynnar er mwyn atal trosedd ac anhrefn. Mae cyfanswm pot ariannu o £100,000 ar gael a bydd gofyniad cyllid cyfatebol o 60%. Bydd manylion pellach mewn perthynas â'r cynllun newydd hwn yn cael eu cyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd. Mae'n bwysig nodi y bydd y gyllideb Trosedd ac Anhrefn gyffredinol ar gyfer 2018-19 yn aros yr un fath.

Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo gydag adolygu'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau presennol. Rydw i wedi cyfarfod â Phennaeth y PPMS ar gyfer Cymru i drafod ffyrdd o gyflawni'r rhaglen yn effeithiol.

Rydw i yn y broses o ystyried yn ofalus achos busnes a ddatblygwyd er mwyn i ni ei ystyried mewn perthynas â Braenaru Cymru Gyfan. Mae a wnelo'r gwaith hwn ag ymgynghoriad manwl gyda'r Heddlu ac ystyriaeth ofalus o'r canlyniadau a gyflawnwyd gan y rhaglen yng Ngogledd Cymru hyd yma.

Lansiwyd Eich Cymuned, Eich Dewis 2017 (fy Nghynllun Cyllideb Cyfranogol) ym mis Awst. Mae David W. Williams, Cadeirydd PACT, yn gweinyddu'r gronfa hon ar fy rhan. Eleni, roedd cronfa o £40,000 ar gael trwy'r cynllun hwn, er mwyn i sefydliadau cymunedol lleol wneud cais amdani. Cydariennir yr arian o Gronfa'r Comisiynwyr a'r Ddeddf Enillion Troseddau.

Nod Eich Cymuned, Eich Dewis yw cefnogi grwpiau/sefydliadau cymunedol lleol gyda chyllid, a benderfynir trwy bleidlais gyhoeddus, i ddatblygu prosiectau newydd neu sy'n bodoli sy'n helpu gwella ansawdd bywyd mewn cymunedau lleol. Disgwylir i'r holl gynigion gefnogi'r Cynllun Heddlu a Throseddu presennol, ac annog datblygiad partneriaethau gweithio cadarnhaol.

Eleni, roedd modd i grwpiau cymunedol wneud cais am:

- £2,500.00 ar gyfer ymgeiswyr Sirol unigol (Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam);
- £5,000.00 ar gyfer ymgeiswyr ledled gogledd Cymru (sefydliadau cymunedol sy'n gweithio ar draws tair sir neu'n fwy).

Cawsom ymateb gwych unwaith eto. Pan gaeodd y ffenestr ymgeisio ar 30 Medi, roedd 39 cais wedi dod iaw gan wneud cyfanswm o £102,995.

Yn dilyn gwaith archwilio ac asesu cychwynnol, mae 35 o'r ceisiadau hyn wedi'u symud ymlaen i'r bleidlais gyhoeddus.

Roedd ffenestr y bleidlais gyhoeddus ar agor tan 1 Rhagfyr 2017.

Mae'r prosiect Eich Cymuned, Eich Llais bellach yn ei bumed flwyddyn. Mae'r pedair blynedd gyntaf wedi gweld dros £165,000 yn cael ei fuddsoddi mewn prosiectau cymunedol llawr gwlad.

**Dioddefwyr**

Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfiawnder y gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Dioddefwyr 2018-19. Y swm a glustnodwyd i Ogledd Cymru yw £808,731.00. Mae hyn wedi'i ostwng ychydig o'r £814,076.00 a glustnodwyd llynedd.

Bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi strategaeth i ddioddefwyr troseddau yn 2018. Dylai'r strategaeth hon fynd i'r afael â'r ffordd y dylai'r Llywodraeth gefnogi dioddefwyr troseddau, yn enwedig yng nghyd-destun natur newidiol troseddau a'r ffasiwn mewn troseddau, sydd wedi arwain at newid yn y math o gefnogaeth y mae ar ddioddefwyr ei hangen. Y gobaith yw y bydd y Gweinidog Cyfiawnder yn rhoi mwy o ystyriaeth i ddatganoli pellach gwasanaethau a gomisiynwyd yn genedlaethol.

**Diweddariad HMIC**

Ym mis Medi, cyhoeddodd HMICFRS (Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi) Adroddiad Arolygiad Hygrededd Data ar Droseddau Gogledd Cymru. Derbyniodd Heddlu Gogledd Cymru'r radd gyffredinol 'Angen Gwella' gydag amcangyfrif o golli 5300 o gyfleoedd i gofnodi troseddau. Fodd bynnag, cafwyd nifer o elfennau cadarnhaol o'r arolygiad hwn ac roedd yr heddlu eisoes wedi gwneud nifer o newidiadau cyn i'r adroddiad gael ei ryddhau.

Gweler isod fy ymateb i adroddiad yr arolygiad yn rhoi manylion fy safbwyntiau ar ganfyddiadau'r arolygiaeth.

2017.10.30 Amber Rudd -Crime Data Int

Rwy'n cael fy nghynrychioli ar Grŵp Defnyddwyr Cofnodi Troseddau Heddluoedd Gogledd Cymru. Rwy'n monitro cynnydd yr heddlu wrth roi'r newidiadau a awgrymwyd yn yr arolygiad o Hygrededd Data ar Droseddau ar waith trwy'r Grŵp hwn ac yn adrodd ynghylch cynnydd yn erbyn 'Meysydd ar gyfer Gwelliant' i'm cyfarfodydd Bwrdd Gweithredol Strategol.

**Dalfeydd**

Dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae gan bob Comisiynydd Heddlu a Throseddu ddyletswydd statudol i sefydlu a chynnal Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol.

Er mai cyfrifoldeb y Comisiynydd yn bennaf yw gweithredu'r cynllun hwn, cyflawnir y rôl hon trwy ymgynghori â'r Prif Gwnstabl.

Mae'r Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol yng Ngogledd Cymru'n galluogi cynrychiolwyr penodedig y gymuned leol i arsylwi, rhoi sylwadau ac adrodd ar yr amodau y cedwir pobl oddi tanynt yn y ddalfa. Yn ogystal, cynigia lefel o ddiogelwch ychwanegol i bobl a gedwir dan glo a heddweision trwy ddarparu craffu annibynnol o driniaeth y bobl a gedwir dan glo a'r amodau y'u cedwir ynddynt.

Gwirfoddolwyr yw'r ymwelwyr dalfeydd a gweithiant fel rhan o dîm i fodloni targedau'r rhaglen ymweld. Ar hyn o bryd, mae 22 o ymwelwyr dalfeydd yng Ngogledd Cymru, sy'n ymweld â 3 dalfa ddynodedig; y rhain yw Dwyrain (Wrecsam), Canolog (Llanelwy) a Gorllewin (Caernarfon). Dim ond yn yr Wyddgrug, Caergybi a Dolgellau y cynhelir ymweliadau, lle mae Dalfeydd mewn defnydd.

Yn hanner cyntaf y flwyddyn, rhwng mis Ebrill a mis Medi, gwnaeth ymwelwyr y dalfeydd 70 o ymweliadau dirybudd â dalfeydd a siaradwyd gyda 224 o garcharorion. Nid adroddwyd ar unrhyw faterion difrifol o'u cadw dan glo.

Rydw i hefyd wedi bod yn craffu nifer y plant a gedwir yn y ddalfa i sicrhau bod y Concordat Plant yn cael ei roi ar waith gan yr Heddlu a'n partneriaid. Amcan cyffredinol y Concordat yw cadw plant allan o'r ddalfa, ac os cânt eu harestio, eu symud i lety priodol fel y bo angen.

Cynhaliwyd cynhadledd dalfeydd Gogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Cymru ar 14 Hydref yn Haydock Park.

Bu'r adborth yn dilyn y digwyddiad yn hynod gadarnhaol, manteisiodd pawb a fynychodd ar y diwrnod.

Cynrychiolwyd yr holl heddluoedd yng Ngogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Cymru gyda thros 100 o bobl yn bresennol. Ymhlith y siaradwyr oedd yr Arolygydd Dawn Samuels o Heddlu Gogledd Cymru a roddodd gyflwyniad ar atal marwolaeth yn y ddalfa, y Prif Arolygydd Roy McGregor, Heddlu Glannau Merswy a siaradodd am y Concordat Plant a Katie Kempen, Prif Weithredwr ICVA a roddodd ddiweddariad cenedlaethol ar faterion cysylltiedig â'r ddalfa. Cafwyd arddangosiad hefyd gan Gwnstabliaeth Sir Gaerhirfryn ar dechnegau arestio a rhwystro. Hwyluswyd y gynhadledd gan Mrs Susan McTaggart, Prif Weithredwr fy swyddfa ac agorwyd y digwyddiad gan Saréda Dirir, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Swydd Caer.

Mae'r gynhadledd yn esiampl o ba mor dda mae swyddfeydd yr Heddlu a'r Comisiynydd yn cydweithio.

**Diweddariad o'r Ymgynghoriad**

Yn fuan, byddaf yn lansio fy ymgynghoriad ar y praesept ar gyfer 2018/19 trwy arolwg ar-lein. Ymgynghorir hefyd gyda grŵp busnes Gogledd Cymru cyn cynnig y praesept.

Dylai aelodau'r panel nodi hefyd fod HMICFRS wedi lansio ymgynghoriad 12 wythnos ar ddylunio datganiadau rheoli'r heddlu. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhedeg tan 22 Rhagfyr 2017 - anogwn bawb sydd â diddordeb mewn plismona i ymateb. Bydd eich adborth o gymorth i wneud datganiadau rheoli'r heddlu'n arf gwerthfawr, gan wella atebolrwydd lleol yr heddluoedd a helpu gwella'u heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd.

Bydd datganiadau rheoli'r heddlu'n offerynnau hunanasesu a gwblheir gan heddluoedd, gan gwmpasu gwerthusiad ac amcanestyniad y Prif Gwnstabl o'r:

a. Galw y mae'r heddlu'n debygol o'i wynebu;

b. Cyflwr, gallu, dawn, defnyddioldeb, perfformiad a diogelwch cyflenwad gweithlu ac asedau eraill yr heddlu (fel TGCh);

c. Cynlluniau'r heddlu i wella pa mor effeithlon y defnyddir asedau'r gweithlu a'r heddlu; ac

d. Incwm ariannol yr heddlu.

Disgwylir y bydd datganiadau rheoli'r heddlu'n galluogi HMICFRS i wneud penderfyniadau am brif feysydd risg yr heddlu ac felly'n dylunio'u gwaith maes arolygu a'u dadansoddiad i ganolbwyntio ar y meysydd risg hynny.

Dylai'r datganiadau rheoli heddluoedd ddarparu gwybodaeth i gomisiynwyr yr heddlu a throseddu er mwyn eu galluogi i asesu'r heddluoedd maen nhw'n gyfrifol amdanynt ac i ba raddau y bydd amcanion eu cynlluniau heddlu a throseddu'n cael eu cyrraedd yn llwyddiannus, a beth fydd y gost.

**Gohebiaeth**

Ffigurau gohebiaeth o 17 Awst 2017 i 1 Tachwedd 2017:

| Categori Gohebiaeth | Nifer |
|---|---|
| Adborth penodol mewn perthynas â'r gwasanaeth plismona | 77<br>*(34 e-bost gan 1 unigolyn)* |
| Adborth cyffredinol mewn perthynas â'r gwasanaeth plismona | 60 |
| Cwynion a gyfeiriwyd at yr Adran Safonau Proffesiynol | 6 |
| Materion staff | 1 |
| Gohebiaeth gyffredinol | 273 |

## Adroddiad gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Diweddariad ar Gyllideb 2017/18 (ar 31 Hydref 2017)** |
| **Cyfarfod:** | **Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 11 Rhagfyr 2017** |
| **Awdur:** | **Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid** |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Nod y papur hwn yw darparu diweddariad i aelodau'r panel ynglŷn â'r gyllideb plismona ar gyfer Gogledd Cymru ar 31 Hydref 2017 (mis 7).

**2. Argymhellion**

2.1 Nodi'r adroddiad.

**3. Diweddariad ar Gyllideb 2017/18**

3.1 Cafodd cyllideb refeniw net ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ei chymeradwyo gan Banel yr Heddlu a Throsedd ar 23 Ionawr 2017 yn £143.217m. Mae hyn yn cynnwys cyllideb net o £0.793 miliwn ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a £1.262 miliwn net ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir. Hyd at 31 Hydref 2017, mae cyfanswm rhagamcaniad hyd at ddiwedd y flwyddyn yn net o £0.427miliwn o danwariant; disgwylir i'r canlyniad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fod yn agos ar y rhagamcaniad presennol.

3.2 Rhagamcanir bod gwariant yn is na'r gyllideb ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys nifer o ragamcanion o orwariant a thanwariant. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw:

- Gweithwyr – rhagwelir gorwariant o £0.146 miliwn.

Dyma effaith net nifer o ffactorau. Bu cynnydd mewn goramser heddlu o ganlyniad i nifer o ddigwyddiadau mawr yn hanner cyntaf y flwyddyn; efallai y bydd angen diwallu cost hyn o'r Arian Wrth Gefn ar gyfer Digwyddiadau Mawr. Yn ogystal, darparwyd cydgymorth i weithredoedd cenedlaethol, mae cost hyn yn cael ei ariannu o incwm ychwanegol.

Ar 12 Medi, cyhoeddodd y llywodraeth y byddai codiad cyflog i heddweision yn cynnwys 1% o godiad cyflog cyfunol ac 1% o godiad cyflog anghyfunol. Er nad oedd codiad cyflog i staff wedi'i gadarnhau adeg paratoi'r adroddiad, tybir ar hyn o bryd y bydd y gwerth a'r telerau yn debyg. Amcangyfrifir bod cost cyfunol y cynnydd hwn yn £0.945m, sydd wedi'i gynnwys yn y rhacamcanion presennol. Nid oes yna arian ychwanegol ar gael i ddiwallu'r cost ychwanegol hwn, sy'n golygu y byddai angen diwallu unrhyw ddiffyg net o arian wrth gefn.

Mae arbedion mewn tâl swyddogion a staff o ganlyniad i drosiant wedi gostwng y gorwariant net i £0.146m, er bod yna drosglwyddiad rhagamcanol i arian wrth gefn o £0.394miliwn sy'n ymwneud ag elfen 2018/19 o'r codiad cyflog anghyfunol.

- Eiddo – tanwariant rhagamcanol o £0.141 miliwn

Er bod y gyllideb wedi gostwng o'i chymharu â blynyddoedd blaenorol, yn seiliedig ar amcangyfrifon cyfredol o gost a defnydd, rhagwelir tanwariant o £0.164m ar gostau ynni.
Mae'r gyllideb ar gyfer costau cynnal wedi cynyddu ar gyfer ariannu gwaith diogelwch a chynnal a chadw; cyflawnwyd yr hawl trosglwyddo arian hwn drwy dynnu ar yr Arian Wrth Gefn Diogelwch, a gymeradwywyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar 17 Awst 2017 (Hysbysiad Penderfyniad DM.2017.21 yn cyfeirio at hyn).

- Cludiant – tanwariant rhagamcanol o £0.509 miliwn

Yr eitem fwyaf arwyddocaol yw gostyngiad yn yr amcanestyniad ar gyfer yr uned cymorth awyr. Mae hyn oherwydd gostyngiad yn y tâl gan Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu (NPAS).

- Cyflenwadau a Gwasanaethau – gorwariant rhagamcanol o £0.294 miliwn
    - Mae yna orwariant rhagamcanol o £0.162 miliwn mewn TG a Chyfathrebu, gyda'r cynnydd hwn yn gysylltiedig ag ail-gontractio llinellau tir.
    - Mae yna orwariant rhagamcanol mewn cost offer ac iwnifform o £0.083miliwn, sy'n gysylltiedig â chyfradd gynyddol recriwtio swyddogion y flwyddyn ariannol hon.
    - Mae cyflenwadau a gwasanaethau eraill yn cynnwys gorwariant rhagamcanol o £0.264 miliwn, sy'n cael ei fantoli'n bennaf gan y tanwariant rhagamcanol ar fforensig (£0.225miliwn).

3.3 Ar hyn o bryd rydym yn rhagamcanu incwm ychwanegol o £0.611m. Mae'r mwyafrif o hyn yn ymwneud ag ad-daliad cymorth ar y cyd ar gyfer lleoliadau cenedlaethol a rhanbarthol diweddar, a'r gweddill o ganlyniad yn bennaf i gynnydd mewn incwm grant.

3.4 Ar hyn o bryd mae rhagamcan taliadau cyfalaf, taliadau wrth gefn (ac eithrio rheoli newid) a'r gronfa diogelwch cymunedol yn unol â'r gyllideb.

3.5 Rhoddir crynodeb o'r cyllidebau a'r rhagamcanion isod.

| | Cyllideb Wreiddiol £'000 | Cyllideb 31 Hydref 2017 £'000 | Gwirioneddol 31 Hydref 2017 £'000 | Rhagamcan hyd Ddiwedd y Flwyddyn £'000 | Rhagamcan o'r Amrywiant £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | |
| Gweithwyr | 124,151 | 124,993 | 73,064 | 125,139 | 146 |
| Eiddo | 7,718 | 8,138 | 4,423 | 7,997 | (141) |
| Cludiant | 4,234 | 4,191 | 1,792 | 3,692 | (509) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 19,740 | 20,435 | 9,682 | 20,729 | 294 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd Dyled a Chyfraniadau i Gyfalaf | 1,864 | 1,864 | - | 1,864 | - |
| Wrth gefn (gweler uchod) | 800 | 514 | - | 514 | - |
| Cronfa Diogelwch Cymunedol | 1,166 | 1,262 | 155 | 1,262 | - |
| **Cyfanswm Gwariant** | **159,673** | **161,397** | **89,116** | **161,187** | **(210)** |
| | | | | | |
| **Incwm** | **(16,681)** | **(17,885)** | **(9,575)** | **(18,496)** | **(611)** |
| | | | | | |
| **Symudiad mewn arian wrth gefn** | **225** | **(295)** | **-** | **99** | **394** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | **143,217** | **143,217** | **79,541** | **142,790** | **(427)** |
| | | | | | |
| **Arian** | | | | | |
| Grantiau | (71,728) | (71,728) | (42,543) | (71,728) | - |
| Praesept | (71,489) | (71,489) | (41,702) | (71,489 | - |
| **Cyfanswm Arian** | **(143,217)** | **(143,217)** | **(84,245)** | **(143,217)** | **-** |
| | | | | | |
| **Tanwariant Net** | | | | | **(427)** |

3.6 Mae’r uchod yn cynnwys incwm a gwariant yn ymwneud â’r grant Gwasanaethau Dioddefwyr gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae £814,076 wedi cael ei ddyrannu i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Mae £789,057 wedi'i ymrwymo ar gyfer comisiynu gwasanaethau dioddefwyr, gyda'r gweddill yn cyfrannu at ein costau cysylltiedig. Mae gwasanaethau a gomisiynir yn cynnwys: Canolfan Cymorth Dioddefwyr, IDVA, ISVA a Get Safe Online.

3.7 Hefyd wedi ei gynnwys uchod mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Mae’r gyllideb am y flwyddyn yn £792,673. Hyd at 31 Hydref, roedd gwariant yn £465,464, ac roedd y canlyniad rhagamcanol yn £834,999 sy’n orwariant rhagamcanol o £42,306. Y rheswm dros hyn yw’r gost o ôl-lenwi swydd y Prif Weithredwr o Awst i Rhagfyr 2017. Bydd y gorwariant hwn yn cael ei ddiwallu o’r arian wrth gefn OPCC (gweddill ar 31 Mawrth 2017 £0.258miliwn) a gynyddwyd mewn blynyddoedd blaenorol pan oedd yna swyddi staff.

## 4. Cyfalaf

4.1 Y rhaglen gyfalaf wreiddiol ar gyfer 2017/18 oedd £18.461 miliwn yn unol â’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Gan ystyried y llithriant a mân ychwanegiadau a dileadau, mae hyn yn cynyddu i £22.022 miliwn.

| Cynllun | Gwariant wedi’i gario drosodd<br><br>£’000 | Cyllideb 2017/18 (ailbroffiliwyd)<br>£’000 | Gwariant 2017/18<br><br>£’000 | Cyllideb - Blynyddoedd i ddod<br>£’000 | Cyfanswm cyllideb<br><br>£’000 | Gwariant at 30.09.17<br><br>£’000 |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfleuster newydd Llai Wrecsam | 4,810 | 13,613 | 5,287 | 2,727 | 21,150 | 10,097 |
| Cyfleuster canol tref Wrecsam | 70 | 1,798 | 90 | - | 1,868 | 160 |
| Adeilad newydd Llandudno | 1,500 | 1,250 | 1,083 | - | 2,750 | 2,583 |
| Ystadau eraill | 2,181 | 503 | 69 | 900 | 3,584 | 2,250 |
| Cerbydau ac offer | 6,746 | 1,771 | 19 | 5,473 | 13,990 | 6,765 |
| TG a Chyfathrebu | 5,588 | 3,067 | 779 | 3,845 | 12,500 | 6,367 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf** | **20,895** | **22,002** | **7,327** | **12,945** | **55,842** | **28,222** |

## 5 Goblygiadau

| | |
|---|---|
| Amrywiaeth | Dim goblygiadau ar wahân o ran amrywiaeth |
| Ariannol | Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i Banel yr Heddlu a Throsedd am y sefyllfa monitro refeniw a chyfalaf fel ag y mae ar ddiwedd Hydref 2017.<br><br>Mae cyllid digonol yn hanfodol i gyflawni cynllun yr heddlu a throsedd ac i ddiwallu ein gofynion cyfreithiol. |
| Cyfreithiol | Dim goblygiadau cyfreithiol ar wahân |
| Risg | Dim goblygiadau risg ar wahân |
| Cynllun yr Heddlu a Throsedd | Dim goblygiadau heddlu a throsedd ar wahân. |

**Adroddiad gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Cymharu Cyllideb Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd** |
| **Cyfarfod:** | **Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 11 Rhagfyr 2017** |
| **Awdur:** | **Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid** |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Gofynnodd y Panel Heddlu a Throsedd am wybodaeth ar sut oedd cyllideb Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cymharu gyda chyllidebau ei gyfoedion.

**2. Argymhellion**

2.1 Nodi'r adroddiad.

**3. Cefndir**

3.1 Mae'r gyllideb ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2017/18 yn £0.793miliwn, sydd, er yn uwch na blynyddoedd diweddar, yn parhau'n is na chyn Awdurdod yr Heddlu.

3.2 Mae'r gyllideb wedi'i thanwario mewn nifer o flynyddoedd, yn bennaf oherwydd effaith swyddi gwag ac absenoldeb yn y swyddfa. Fodd bynnag, ar gyfer 2017/18 rhagwelir na fydd y gyllideb yn ddigonol, oherwydd cost goruchwyliaeth salwch ar gyfer swydd statudol.

3.2.1 Crynodeb o'r cyllidebau a gwariant net ers 2010/11 isod:

| Blwyddyn | Cyllideb £'000 | Gwariant Net £'000 |
|---|---|---|
| 2017/18 | 793 | |
| 2016/17 | 741 | 737 |
| 2015/16 | 731 | 774 |
| 2014/15 | 731 | 722 |
| 2013/14 | 731 | 618 |
| 2012/13 | 731 | 503 |
| 2011/12 | 731 | 634 |
| 2010/11 | 819 | 724 |

3.3 Mae'r gyllideb ar gyfer 2017/18 yn cynnwys yr eitemau canlynol:

| **Cyllideb Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd 2017/18** | **£'000** |
|---|---|
| Costau staffio a gweithwyr | 567 |
| Eiddo | 2 |
| Teithio, cynhaliaeth a lwfans gweini | 19 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 205 |
| **Cyfanswm** | **793** |

## 4. Cymhariaeth ag eraill

4.1 Er mwyn sicrhau bod unrhyw gymhariaeth yn ddilys, mae'n bwysig cymryd y canlynol i ystyriaeth:

- Ydy ffigwr cyllideb pob Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cynnwys yr un eitemau incwm a gwariant?
- Ydyn ni'n cymharu Swyddfeydd sydd (neu ddylai fod) yn debyg?
- Mae'r ffigyrau mwyaf diweddar a gyhoeddwyd adeg paratoi'r adroddiad hwn yn ymwneud â 2016/17. Felly, defnyddiwyd y ffigyrau hyn at ddibenion cymharu.

4.2 Mae'r gyllideb a gyhoeddwyd £0.741miliwn ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn 2016/17 yn cynrychioli'r swm a reolir gan y swyddfa hon. Fodd bynnag, pan mae'r HMIC yn ein cymharu gydag eraill, mae'n defnyddio'r ffigyrau a gyhoeddwyd yn adroddiadau ystadegol CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg), gan y dylid cwblhau'r rhain ar sail safonol. Ar gyfer Gogledd Cymru, mae hyn yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Cost y broses ddemocrataidd* | £0.133miliwn |
| Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd | £0.685miliwn |
| Cyfanswm | £0.818miliwn |

* Mae hyn yn cymharu cyflogau a chostau cysylltiol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Mae'r gwahaniaeth o £0.077miliwn yn cynnwys yr addasiadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyllideb a gyhoeddwyd | £0.741miliwn |
| Ychwanegu cyfran o gostau canolog a ddyrannwyd | £0.011 |
| Ychwanegu archwilio allanol | £0.051 |
| Ychwanegu rheoli trysorlys | £0.015 |
| Cyfanswm addasiad net | £0.077miliwn |
| Cyllideb ar gyfer cymharu gydag eraill | £0.818miliwn |

At ddibenion cymharu gyda swyddfeydd eraill Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, defnyddiwyd ffigyrau CIPFA.

4.3 Roedd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi wedi paratoi cymhariaeth o gost y pen o'r boblogaeth ar gyfer pob Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, yn seiliedig ar ystadegau CIPFA. Dangosir y wybodaeth hon yn Atodiad A. Mae'n werth cadw mewn cof bod cyflog pob Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael ei bennu gan yr Ysgrifennydd Cartref, ac mae y tu hwnt i reolaeth y Comisiynwyr a'u swyddfeydd. Oherwydd bod yr amrediad cyflogau yn fach, bydd hyn yn gyfatebol uwch mewn ardaloedd gyda phoblogaeth is. Fodd bynnag, yn ôl y dadansoddiad hwn, roedd cyllideb Gogledd Cymru ar gyfartaledd ar gyfer pob ardal gafodd ei harchwilio.

4.4 Er mwyn cael syniad gwirioneddol pa un a yw costau'r swyddfa hon yn rhesymol, mae'n ddefnyddiol cymharu gydag eraill a ystyrir yn debyg. Felly, at ddibenion yr adroddiad hwn, mae'r Grŵp Lluoedd Mwyaf Tebyg a Chymru wedi eu hystyried yn fwy manwl.

4.5 Mae'r tabl isod yn dangos y cyllidebau net a'r nifer o staff (cyfateb i lawn amser) ar gyfer Swyddfeydd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer y Grwpiau Cymhariaeth.

| **OPCC** | | **Cyllideb Net 2016/17 £'000** | **Staff (Cyfateb i Llawn Amser)** |
|---|---|---|---|
| Dyfnaint a Chernyw | MSG | 1,737 | 19.61 |
| Gorllewin Mersia | MSG | 1,437 | 16 |
| Swydd Warwig | MSG | 901 | 11.58 |
| Suffolk | MSG | 857 | 10.3 |
| **Gogledd Cymru** | | **818** | **10.6** |
| Wiltshire | MSG | 790 | 7.22 |
| Gogledd Swydd Efrog | MSG | 788 | 10 |
| | | | |
| De Cymru | Cymru | 1,293 | 15 |
| Gwent | Cymru | 1,056 | 15 |
| Dyfed-Powys | Cymru | 926 | 14 |
| **Gogledd Cymru** | | **818** | **10.6** |
| | | | |

## 5. Casgliad

5.1 Mae'r cymariaethau uchod yn dangos bod costau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru yn gymharol isel, y trydydd isaf o fewn y Grwpiau Lluoedd Mwyaf Tebyg. Mae hefyd yn nodedig, er gwaethaf y ffaith bod Heddlu Gogledd Cymru yr ail lu mwyaf yng Nghymru, mae cost swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yr isaf yng Nghymru. O fewn Cymru a Lloegr (data ar gael ar gyfer 41 ardal llu) chwe swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd sydd â chyllideb net is na Gogledd Cymru.

## 6. Goblygiadau

| | |
|---|---|
| Amrywiaeth | Dim goblygiadau ar wahân o ran amrywiaeth |
| Ariannol | Diben yr adroddiad hwn yw cymharu cyllideb Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gyda chyllidebau swyddfeydd eraill Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.<br><br>Nid oes yna oblygiadau ariannol ar wahân. |
| Cyfreithiol | Dim goblygiadau cyfreithiol ar wahân |
| Risg | Dim goblygiadau risg ar wahân |
| Heddlu a Throsedd | Dim goblygiadau heddlu a throsedd ar wahân |

## Income and expenditure - NRE by function - Police and Crime Commissioner (PCC)/Local policing bodies


What is the expenditure of the local policing body on its own office and non-policing commissioned services?


Broadly, 'Cost of PCC/Deputy Mayor for Policing and Crime' includes salary and associated costs (including expenses and training) of the PCC, deputy PCC and any appointed deputies and special advisers. For the Metropolitan Police Service this relates to the Deputy Mayor for Policing and Crime and similar staff and costs. PCC salaries are set by the Senior Salaries Review Body.


'Office of PCC/local policing body & other costs' includes salary and associated costs of the Chief Executive, Chief Finance Officer and any other staff employed to support the PCC/ Deputy Mayor as well as office-running costs. It also includes other local policing body costs such as external audit and council tax leaflets.

PCC Commissioned services includes
- services previously commissioned under the community safety fund grant;
- victim and witness services including restorative justice (RJ); and
- services directly commissioned by the PCC.

The split between Community Safety and Victims/Witnesses/RJ/Other costs is based on percentage of gross PCC Commissioned Services spent on Community Safety.




| Population | 694k |
|---|---|

| | £m | £/head | Averages All | Averages MSG | Diff* £m All | Diff* £m MSG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Community Safety | 1.17 | 1.68 | 1.36 | 0.99 | 0.22 | 0.48 |
| Victims & witnesses, restorative justice & other | 0.82 | 1.18 | 1.64 | 1.96 | -0.32 | -0.54 |
| **PCC/local policing body commissioned services** | 1.99 | 2.86 | 3.00 | 2.96 | -0.10 | -0.07 |
| Cost of PCC/Deputy Mayor for Policing and Crime | 0.13 | 0.19 | 0.15 | 0.15 | 0.03 | 0.03 |
| Office of PCC/local policing body & other costs | 0.69 | 0.99 | 1.03 | 1.00 | -0.03 | -0.01 |
| **PCC/Local policing body cost** | 2.81 | 4.04 | 4.18 | 4.11 | -0.10 | -0.05 |

* Net cost of the difference in spend compared to the average per head of all/MSG PCCs/local policing bodies.

Data on the office of the PCC should be read with caution as staff numbers will vary according to the local context. Some staff within the OPCC may be providing a dual service to the force, e.g., finance, communications or analysis teams.

Note that HMIC do not inspect expenditure incurred by local policing bodies/PCCs.

*Source: POA estimates 2016/17*

CONWY

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 11 Rhagfyr 2017 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Richard Jarvis<br>Swyddog Arweiniol a Chynghorydd Cyfreithiol ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru<br>Dawn Hughes<br>Swyddog Cefnogi Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **TESTUN:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – Adroddiad Cyllideb 1 Ebrill 2017 i 30 Medi 2017. |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi adroddiad monitro cyllideb chwe mis i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PHTh) ar dreuliau'r PHTh am y cyfnod 1 Ebrill 2017 hyd at 30 Medi 2017.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Er mwyn caniatáu craffu cyhoeddus o wariant y PHTh, mae gofyniad tryloywder wedi cael ei roi fel amod ar y taliad grant sengl, ac felly byddai angen i'r PHTh fel isafswm, ar ei wefan, gyhoeddi manylion ei holl wariant.

2.1 Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i'r PHTh roi gweithdrefnau ar waith i fonitro ac olrhain gwariant yn erbyn y gyllideb a gytunwyd, a hefyd tynnu sylw at sut mae gwerth am arian yn cael ei gyflawni.

2.2 Felly, bydd y PHTh yn derbyn adroddiadau monitro cyllideb chwe misol i fodloni'r cais hwn.

## 3. ARGYMHELLIAD(ION)/OPSIYNAU

3.1 Nodi'r adroddiad monitro chwe mis.

3.2. Bod y PHTh yn cydnabod bod Swyddogion yn monitro ac yn olrhain gwariant yn erbyn cyllidebau cytunedig ac i sicrhau gwerth am arian.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu dyraniad grant o £70,975 i'r Awdurdod Lletya ar gyfer cynnal Panel yr Heddlu a Throsedd i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau, yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

4.2 Cyflwynwyd PHTh i graffu ar gamau gweithredu a phenderfyniadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (CHTh). Bydd y PHTh yn darparu cefnogaeth a her i'r CHTh wrth ymarfer eu swyddogaethau.

4.3 Dyrennir y grant o dan dri phennawd:

- Costau Gweinyddu, gan gynnwys costau ad-dalu Swyddogion, costau hyfforddiant, costau cofrestru a threuliau teithio.
- Lwfansau Aelodau
- Costau Cyfieithu

Gall yr Awdurdod Cynnal drosglwyddo cyllid rhwng y tri phennawd, cyhyd na warir mwy na chyfanswm y grant a hawlir.

4.4 Cyflwynir hawliadau i'r Swyddfa Gartref bob chwe mis, sy'n cynnwys gwariant gwirioneddol yn erbyn gwariant a ragwelir. Mae'r Awdurdod Lletya yn cadw'r dystiolaeth berthnasol i gefnogi'r hawliadau.

4.5 Mae Atodiad 1 yn rhoi manylion yr hawliad am y cyfnod 1 Ebrill 2017 - 30 Medi 2017. Mae costau gweinyddu yn uwch na 50% o'r dyraniad ar gyfer y cyfnod adrodd. Mae hyn oherwydd trosiant uchel Aelodau PHTh yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017, a oedd angen enwebiadau newydd i gydymffurfio â'r amcan cydbwysedd gwleidyddol, ynghyd â pharatoi a chyflwyno sesiynau sefydlu Aelodau. Yn ogystal, mae'r cynnydd yn nifer y cwynion yn erbyn CHTh a Dirprwy CHTh yn cymryd swm anghymesur o amser Swyddogion.

4.6 Mae manylion costau Aelodau hefyd yn Atodiad 1; mae'r rhain yn is yn y cyfnod adrodd cyntaf, gan mai dim ond dau gyfarfod sydd wedi digwydd.

4.7 O ran effeithlonrwydd, mae'r PHTh wedi lleihau nifer y cyfarfodydd a drefnwyd o 6 i 5, gan gael gwared â'r cyfarfod ym mis Tachwedd. Er bod rolau Cefnogwyr Aelodau wedi'u sefydlu i gynyddu swyddogaeth graffu a chymorth y PHTh ymhellach, cytunwyd nad yw'r rhain yn swyddi taledig a bydd yr Aelodau'n darparu eu hamser ac ymdrechion ar sail ewyllys da.

4.9 Rhagwelir y gwariant ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf Hydref 2017 - Mawrth 2018 fel a ganlyn:

- Costau Gweinyddu: Mae'n debygol y bydd y rhan hon o'r grant yn cael ei ddefnyddio'n llawn, oherwydd bod angen amser Swyddogion i gefnogi'r PHTh.

- Costau Aelodau: Telir yr Aelodau am eu presenoldeb yng nghyfarfodydd y PHTh (mae yna 3 chyfarfod wedi'i drefnu ar hyn o bryd yn ystod y 6 mis nesaf), y Diwrnod Datblygu yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a phresenoldeb yn y Gynhadledd Genedlaethol PHTh i 4 Aelod. Mae'n werth nodi y gallai fod cyfleoedd hyfforddi eraill sy'n codi yn y 6 mis nesaf, sy'n gofyn am bresenoldeb Aelodau.

- Costau Cyfieithu: Mae'n debygol y bydd y rhan hon o'r grant yn cael ei ddefnyddio'n llawn, gan fod yr holl adroddiadau a rhaglenni ar gyfer y PHTh wedi'u cyfieithu'n llawn ac mae gwasanaeth cyfieithu ar gael ym mhob cyfarfod o'r PHTh.

4.10 Rhaid i holl Aelodau'r Panel gael awdurdod gan y Swyddog Arweiniol am eu holl gostau er mwyn sicrhau ei fod yn darparu gwerth am arian a buddion i'r PHTh cyfan.

4.11 Rhaid i unrhyw wariant a wneir gan Swyddogion gael ei awdurdodi gan yr Awdurdod Lletya er mwyn sicrhau gwerth am arian.

## 5. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

5.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyllid o £70,975 i'r Awdurdod Lletya, ar gyfer gweinyddu Panel Heddlu a Throsedd.

5.2 Mae Atodiad 1 yn rhoi manylion y gwariant am y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2017.

## 6. RISG

6.1 Bydd yr adroddiad monitro cyllideb hwn yn rhoi sicrwydd i'r PHTh bod y grant ar gyfer y PHTh yn cael ei wario mewn ffordd briodol.

## 7. RHESWM(RHESYMAU) DROS YR ARGYMHELLIAD(ION)

7.1 Sicrhau bod y PHTh yn cydymffurfio ag amodau Grant y Swyddfa Gartref.

Atodiad 1

**Gwariant Grant y Panel Heddlu a Throsedd ar gyfer 2017/18**

| | GWIR WARIANT Ebrill - Medi 2017 | DYRANIAD GRANT AR GYFER 2017/18 | GWARIANT A RAGWELIR HYD 2017 – Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|
| COSTAU GWEINYDDU | 36,469.91 | 53,300 | 16830.09 |
| LWFANSAU AELODAU | 3,752.08 | 11,960 | 5248.92 |
| COSTAU CYFIEITHU | 3,184.16 | 5,715 | 2530.84 |
| Cyfanswm | £43,406.15 | £70,975 | £24,609.85 |

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 11 Rhagfyr 2017 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Richard Jarvis - Swyddog Arweiniol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru<br><br>Dawn Hughes - Swyddog Cefnogi'r Panel Heddlu a Throsedd |
| **TESTUN:** | Crynodeb o’r cwynion a dderbyniwyd |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yw darparu crynodeb o’r cwynion sydd wedi eu derbyn am Gomisiynydd Heddlu a Throsedd, Mr Arfon Jones, ers ei ethol ym mis Mai 2016 ac am Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Ann Griffith) ers ei phenodiad ym mis Gorffennaf 2016 i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae’r Panel Heddlu a Throsedd wedi derbyn 3 cwyn cofnodadwy yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac 1 yn erbyn y Dirprwy Gomisiynydd (gwelwer Atodiad 1).

2.5 Er mai cylch gwaith y Panel hwn yw delio â chwynion yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a’r Dirprwy Gomisiynydd, mae’r Panel wedi derbyn 3 cwyn ynghylch Heddlu Gogledd Cymru rhwng Rhagfyr 2016 a Rhagfyr 2017. Mae’r cwynion hyn wedi eu hanfon ymlaen at yr Adran Safonau Proffesiynol a chopïau wedi eu hanfon i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn nodi'r adroddiad a'r camau gweithredu a gymerwyd mewn perthynas â'r cwynion a gafwyd.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae gan Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gyfrifoldeb statudol o ran trin a phenderfynu ar gwynion penodol a wnaed yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

4.2 O 1 Chwefror 2016, cytunodd Panel yr Heddlu a Throsedd i ddirprwyo ei swyddogaethau i Swyddog Arweiniol Panel yr Heddlu a Throsedd a'i Ymgynghorydd Cyfreithiol (Richard Jarvis), gan fod y Swyddog Arweiniol blaenorol (Mr Ken Finch) wedi gadael yr Awdurdod Lletyol.

4.4 Yn unol â Gweithdrefn Gwynion y Panel, ymgynghorodd y Swyddog Arweiniol gyda'r Panel Cwynion wrth benderfynu ar y mathau o gwynion a dderbyniwyd, y strategaeth ar gyfer eu datrys yn anffurfiol a phenderfyniad terfynol y Panel ynghylch y cwynion.

4.5 Er bod y Panel wedi ei wahardd yn benodol rhag ymchwilio i'r cwynion yn rhinwedd y darpariaethau statudol, caniateir i'r Panel annog, hwyluso a chynorthwyo i ddatrys cwynion yn anffurfiol. Fel rhan o'r broses hon, gofynnodd y Swyddog Arweiniol am ragor o wybodaeth ac eglurhad gan y Comisiynydd a'i Swyddfa ynghylch y cwynion a dderbyniwyd.

4.6 Mae manylion y cwynion a dderbyniwyd a'r canlyniadau yn Atodiad 1.

4.7 Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am ddelio â chwynion ynglŷn â'r Prif Gwnstabl. Caiff cwynion eu cofnodi yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Bydd ystadegau yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol ac yn chwarterol gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu – mae'r ystadegau yn darparu manylion am gyfanswm y cwynion a gafwyd gan bob llu heddlu.

## 5. YMGYNGHORI

5.1 Ymgynghorwyd â'r Panel Cwynion a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd mewn perthynas â'r cwynion a dderbyniwyd.

## 6. ADNODDAU

6.1 Er bod y Swyddfa Gartref yn darparu grant i'r Awdurdod Lletyol ar gyfer costau gweinyddol, mae'r gofyniad i ddatrys cwynion nad ydynt yn

droseddol yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cymryd swm anghymesur o amser swyddog.

## 7. RISG

7.1 Er mwyn cydymffurfio â'r Weithdrefn Gwyno, mae angen crynhoi bob cwyn mewn adroddiad (fel y gellir rhoi gwybod amdanynt yn gyhoeddus) ac arfer swyddogaethau at ddibenion monitro.

## 8. RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD

8.1 Hysbysu'r Panel Heddlu a Throsedd o nifer y cwynion a ddaw i law yn rheolaidd.

ATODIAD 1

## CWYNION A DDERBYNIWYD RHWNG MIS MAI 2016 A MIS RHAGFYR 2017

| **Dyddiad derbyn y gŵyn** | **Categori** | **Math o gŵyn** | **Manylion y gŵyn** | **Cam Gweithredu** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|---|---|---|
| 18/11/16 | Comisiynydd | Cyffredinol | Mae'r gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad y Comisiynydd (Arfon Jones) mewn perthynas â chefnogi Stop Funding Hate, ymgyrch sydd hefyd yn ceisio atal cwmniau rhag hysbysebu mewn papurau newydd penodol, a thalu am hynny, oherwydd y farn eu bod yn defnyddio tactegau brawychu a rhannu i werthu eu papurau. | Wedi ei atgyfeirio at y Panel | Mae'r Panel yn credu bod y Comisiynydd wedi ymddwyn yn briodol a chywir dan yr amgylchiadau gan ei fod wedi mynegi ei farn bersonol ef ar ei gyfrif Twitter personol. Caewyd y mater ar 23/06/17. |
| 09/02/17 | Dirprwy Gomisiynydd | Cyffredinol | Bu i'r Dirprwy Gomisiynydd wneud hunan-atgyfeiriad mewn perthynas â methu anfon gwybodaeth ymlaen yn amserol i Heddlu Gogledd Cymru. | Atgyfeiriwyd at yr IPCC, a benderfynodd peidio ag ymchwilio i'r gŵyn a'i hatgyfeirio'n ôl at y Panel ar gyfer datrysiad anffurfiol. | Mae'r Panel yn argymell bod Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn diwygio'r Polisi Gohebu i leihau'r risg o'r Dirprwy Gomisiynydd, y Comisiynydd neu aelod arall o staff y swyddfa yn mynd i sefyllfa debyg yn y dyfodol. Maent hefyd yn argymell bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar hyn o fewn y chwe mis nesaf. Caewyd y mater ar 23/06/17 |
| 15/06/17 | Comisiynydd | Cyffredinol | Mae'r gŵyn yn ymwneud â negeseuon trydar gan y Comisiynydd (Arfon Jones), a ystyriwyd yn sarhaus ac yn ddifrïol gan y sawl a gwynodd. | Wedi ei atgyfeirio at y Panel | Ar y gweill |
| 21/07/17 | Comisiynydd | Cyffredinol | Mae'r gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad y Comisiynydd (Arfon Jones) a'i ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ar 15/07/17, pan dreuliodd y Comisiynydd y diwrnod yn profi sut brofiad yw hi i fod yn ddigartref yn Wrecsam. | Wedi ei atgyfeirio at y Panel | Ar y gweill |

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Dawn Hughes |
| | Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>Conwy<br>LL28 5NF |
| E-bost: | dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Rhif ffôn: | 01492 576061 |

| Date | Subject | Responsible Officer (including e-mail address) |
|---|---|---|
| **22 Ionawr 2018** | **Cyllideb ac Adroddiad Gosod Praesept 2016/17** Ystyried praesept arfaethedig ar gyfer 2017/18 | Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **22 Ionawr 2018** | **Cynllun Ariannol Tymor Canolig** | Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **22 Ionawr 2018 19 Mawrth 2018** | **Cynllun yr Heddlu a Throsedd** | Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **22 Ionawr 2018** | **Adolygu Gweithdrefn Gwynion** | Richard Jarvis – Prif Swyddog/ Ymgynghorydd Cyfreithiol y PHaTh |
| **22 Ionawr 2018** | **Protocol Diwygiedig ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd** | Richard Jarvis – Prif Swyddog/ Ymgynghorydd Cyfreithiol y PHaTh |
| **30 Ionawr 2018** | **Cynhelir y cyfarfod os caiff y praesept ei wahardd gan Banel yr Heddlu a Throsedd** | |
| **19 Mawrth 2018** | **Amserlen gyfarfod ar gyfer 2017/18** | Richard Jarvis – Prif Swyddog/ Ymgynghorydd Cyfreithiol y PHaTh |
| **Eitemau yn y dyfodol** | | |
| **I'w gadarnhau** | **Adolygiad blynyddol o aelodaeth y Panel Heddlu a Throsedd** Sicrhau y bydd Aelodau Etholedig y Panel, cyn belled ag sy'n ymarferol, yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol a demograffig cymunedol Gogledd Cymru. | Awdurdod Cynnal |
| **I'w gadarnhau** | **Adolygu Cylch Gorchwyl Panel yr Heddlu a Throsedd** Adolygu'r Cylch Gorchwyl er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben. | Awdurdod Cynnal |